# y dinesydd

www.dinesydd.com

Mai 2008 Papur Bro Dinas Caerdydd a'r Cylch Rhif 328


## "BLUEBYYYRDS, BLUEBYYYRDS!"

Diau fod pob dinesydd bellach yn gwybod fod Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd wedi cyrraedd rownd derfynol Cwpan yr FA am y tro cyntaf ers 1927. Ymhen yr wythnos fe fydd miloedd o gefnogwyr Caerdydd yn tyrru unwaith eto tuag at Wembley i flasu beth sydd, yn draddodiadol, yn binacl ar y tymor pêl droed.

Tra bod pawb yn ymfalchio yn eu gorchest mae yna temtasiwn i gredu fod y clwb ar drothwy oes aur arall. Efallai y dylid gofyn y cwestiwn pam y llwyddodd Caerdydd i gyrraedd yr entrychion am y tro cyntaf ers wythdeg mlynedd?

Do, fe drechwyd Middlesborough yn eithriadol o rwydd yn un o'r rowndiau blaenorol – uchafbwynt y tymor hyd hyn yn ddiau. Ond nid cyd-ddigwyddiad yw hi mai ond un tim o'r *Premier* a ymddangosodd yn y rownd gyn-derfynnol eleni. Er fod Portsmouth yn eithaf cyffyrddus yn hanner uchaf tabl y *Premier*, ni ellir cyfrif West Bromwich Albion na Barnsley, sydd gyda llaw, yn ymladd am eu heinioes ar waelodion yr un gynghrair â Chaerdydd fel cewri y bêl gron.

Onid y gwir yw nad yw cystadlu yng nghwpan yr FA yn flaenoriaeth gan nifer o'r clybiau mawr bellach? Amcan pob clwb mawr yw i chwarae yn un o gystadleuthau Ewropeaidd er mwyn denu arian sylweddol. Wedi'r cyfan gall o leiaf chwe thim uchaf yn y prif gynghrair hawlio lle yng nghystadleuthau Ewrop ac mae brwydro am safle teilwng yn yr uwch gynghrair yn llawer mwy deniadol na rhoi'ch wyau i gyd ym masged neu gwpan yr FA. Amcan pob tim llai felly yw i gyrraedd y brif adran ac yna i ymladd hyd yr eithaf am un o'r safleoedd ar y brig.

Gall neb wadu nad yw Caerdydd wedi manteisio ar hyn ac wedi elwa'n sylweddol ond un canlyniad o gyrraedd y ffeinal yw fod Caerdydd wedi 'tynnu eu llygad oddiar y bêl' fel petai a cholli cyfle euraidd i ymgiprys am le yn y *Premier* y tymor nesaf trwy orffen ar frig yr adran is neu trwy gymryd rhan yn y gemau ail gyfle. Os na fyddant yn fuddugol ar 17 Mai a dychwelyd i Gymru gyda'r gwpan yna fe fydd Caerdydd wedi talu'r pris ac yn chwarae yn erbyn Abertawe y tymor nesaf yn lle croesawu Man Utd, Chelsea ac Arsenal i'r stadiwm newydd - Does dim gwobr i'w gael am ddod yn ail.

Ond peidiwch a gadael sylw bach fel hwn ddyfetha'r hwyl!
"C'MON BLUEBYYYRDS!"

## CYHOEDDI STEDDFOD YR URDD 2009



Am yr ail dro cynhelir Eisteddfod yr Urdd yn y Bae yn 2009 ac ar 11 Ebrill daeth cannoedd o blant ac ieuenctid ynghyd yn y Bae i gyhoeddi ymweliad yr Ŵyl â Chaerdydd unwaith eto. Dewi Pws fydd Llywydd Anrhydeddus yr Ŵyl hon. Bu gorymdaith dan arweiniad Mistar Urdd o Ganolfan y Mileniwm i adeilad y Cynulliad. Roedd y plant wedi gwisgo crysau coch, gwyn a gwyrdd, a llwyddwyd i greu baner yr Urdd yn llwyddiannus iawn ar y grisiau o flaen y Senedd. Yna, aeth Mistar Urdd i ganol y plant, a chyflwyno Rhestr Testunau 2009 i'r Arglwydd Dafydd Elis Tomos.

Cafwyd Dawnsio Gwerin gan Ysgol Y Berllan Deg, a diolch i Christine Jones am eu hyfforddi. Cafwyd cerddoriaeth fyw gan Rhiain Bebb ac Andrew Tyler ar yr accordion. Gyda'r nos, cynhaliwyd 'Gig Cyhoeddi' yn Undeb Myfyrwyr Caerdydd gyda rhai o fandiau amlycaf y Cymru – Frizbee, Derwyddon Dr Gonzo, Just Like Frank a Nos Sadwrn Bach.

## Lesyns History

Fe ŵyr pawb fod yna fwy nag un ffordd o gael Wil i'w wely, neu, ar ôl cynnwrf yr wythnos ddiwethaf, ffordd o gael Gareth, Kirsty, Jaswat a Sarul ar Gyngor y Ddinas. Mae pleidleisio tactegol wedi dod yn arf effeithiol yn nwylo'r etholwyr ers blynyddoedd a bellach mae'r pleidiau 'llai' yn mabwysiadu dulliau hyn i dorri crib y Blaid Lafur trwy Gymru ac yn enwedig yng Nghaerdydd. Targedodd Plaid Cymru ardal Glanyrafon ble roedd ganddynt droedle ers 2004 ac nid damwain oedd buddugoliaeth Neil McEvoy yn ardal y Tyllgoed. "Mae'n dangos pan fyddwn yn ymgyrchu", meddai Neil "Gallwn ennill yn rhywle."

Parhad ar dudalen 7 >

# Y Dinesydd

**www.dinesydd.com**

**Golygydd y rhifyn hwn:**
Cen Williams
**Golygydd y rhifyn nesaf:**
Llio Penri
**Anfonwch ddefnyddiau ar gyfer rhifyn Mehefin 2008**
**erbyn 23 Mai at:**
Llio Penri,
7 Alexander Road, Treganna,
Caerdydd. CF5 1NS
llio@penri.com
Ffôn: 029 20631321
**neu at Gadeirydd Pwyllgor *Y Dinesydd*:**
Peter Gillard, Tŷ Llwyd, Drope Rd., Sain Siorys, Bro Morgannwg CF5 6EP
(e-bost: pagillard@yahoo.co.uk
ffôn: 01446-760007).
**MANYLION CYSYLLTU**
**Calendr y Dinesydd**
Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ
(JamesEW@caerdydd.ac.uk;
029-2062-8754)
**Hysbysebion**
Siân Lewis, Menter Caerdydd, Tŷ Avocet, 88 Heol yr Orsaf, Ystum Taf, Caerdydd CF14 2FG (sian@dinesydd.com; 029-2056-5658)
**Derbyn a dosbarthu copïau**
Ceri Morgan, 24 Cwm Gwynlais, Tongwynlais, Caerdydd CF15 7HU
(ceri33@btopenworld.com; 07774-816-209)
**Rhoddion a thaliadau**
Trysorydd y Dinesydd, d/o Menter Caerdydd, Tŷ Avocet, 88 Heol yr Orsaf, Ystum Taf, Caerdydd CF14 2FG
**Noddi rhifynnau**
**ac ymholiadau cyffredinol**
Peter Gillard 01446-760007.

Cyhoeddir *Y Dinesydd* gan Bwyllgor *Y Dinesydd*.
Fe'i cysodir gan Penri Williams a'i argraffu gan Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.


## CYFRANNU'N ARIANNOL

Mae parhad *Y Dinesydd* yn dibynnu ar roddion gan unigolion a chymdeithasau. Rydym yn croesawu pob rhodd, bach a mawr. Anfonwch at: Trysorydd y Dinesydd, d/o Menter Caerdydd, Tŷ Avocet, 88 Heol yr Orsaf, Ystum Taf, Caerdydd. CF14 2FG .


Cydnabyddir cefnogaeth

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru / Sponsored by Welsh Assembly Government

BWRDD YR IAITH GYMRAEG • WELSH LANGUAGE BOARD

www.bwrdd-yr-iaith.org.uk


## Agor Ystafell Iorwerth Morgan yn Nhŷ'r Cymry




**Owen John Thomas, Cadeirydd Ymddiriedolwyr Tŷ'r Cymry yn dadorchuddio'r plac ar ystafell Iorwerth Morgan**

Mae cymdeithasau'r ddinas wedi gweld eisiau Iorwerth Morgan a fu farw fis Mehefin 2007, a neb yn fwy na Thŷ'r Cymry, Heol Gordon, lle bu'n gymwynaswr heb ei ail. Cafodd Iorwerth, yn ŵr ifanc, groeso yno ac nid oedd pall ar ei deyrnged i'r Tŷ fel meithrinfa cymaint o'r cymdeithasau sydd bellach yn rhan annatod o weithgarwch y genedl.

I dalu gwrogaeth i'w ddyfalbarhad a'i ffyddlondeb i Dŷ'r Cymry, cynhaliwyd cyfarfod yno i anrhydeddu Iorwerth ac enwi ystafell ar ei ôl. Llywydd y noson oedd Owen John Thomas, Cadeirydd Ymddiriedolwyr Tŷ'r Cymry, a chafwyd anerchiadau gan Illtud Lewis, y Parch. Owain Llŷr Evans a Gruff Hughes, Ysgrifennydd Cyffredinol UCAC.

Ffeinal Cwpan yr FA ym 1927 rhwng Caerdydd a'r Arsenal oedd y Ffeinal gyntaf i'w darlledu'n fyw ar y radio.


**Betsan Dafydd**
Person Colur a Gwallt
07825 339063 /
07944 432768
Betsandafydd@btinternet.com


## CYMDEITHAS TŶ'R CYMRY


Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol y Gymdeithas ar Nos Fercher 9 Ebrill. Ail etholwyd y swyddogion sef Robert ap Tomos yn Llywydd, Paul Jeffries yn Is Lywydd, Lari Davies yn Drysorydd a Lona Roberts yn Ysgrifennydd. Am ragor o fanylion am y Gymdeithas sy'n agored i siaradwyr Cymraeg a dysgwyr profiadol yn yr iaith ffoniwch Lona ar 20766283.

## Y STEDDFOD A'R CAPELI YN GYTUN

"…Yr oeddent oll ynghyd yn yr un lle."- a diolch byth am hynny!

Am resymau sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch penderfynodd y Steddfod godi tâl mynediad i Faes yr Eisteddfod ar Ddydd Sul cyntaf yr Ŵyl eleni. Golygai hyn y byddai pawb oedd am fynychu'r oedfa yn y pafiliwn yn gorfod talu tâl mynediad o £9 yr un. Yn dilyn trafodaeth, gohebiaeth, cŵyn, protest, cyfarfodydd, mwy o drafodaeth… cytunwyd ar gyfaddawd ble y trefnwyd i'r addolwyr dderbyn tocyn i'r oedfa yn unig ac yna ei heglu hi o'r maes yn syth ar ôl y gwasanaeth.

Tydi hi'n rhyfedd sut mae rhyw broblem fechan yn ennyn cymaint o sylw. Cododd y mater ei ben yn aml ar y cyfryngau gan gynnwys bod yn brif eitem ar Newyddion S4C ac ar Radio Cymru a chafodd Taro'r Post fodd i fyw! Llongyfarchiadau i gapeli Caerdydd, cymdeithas Cytun a'r Steddfod am lwyddo i gael cymaint o gyhoeddusrwydd i fater roedd pawb call wedi'i ddatrus wrth y bwrdd brecwast cynnar uwchben eu creision ŷd. Da iawn chi!




Yn ogystal â bod yn bêl-droediwr dyheig roedd Fred Keenor, capten Caerdydd yn y Ffeinal ym1927 yn dda gyda'i ddwylo ac mae'n debyg iddo godi tŷ i'r teulu yn ardal yr Eglwys Newydd. Oes rhywun yn gwybod ble mae'r tŷ?

www.mentercaerdydd.org
029 20565658

**Cynlluniau Gofal Hanner Tymor**
Fe fydd y Fenter yn cynnal 3 cynllun yn ystod gwyliau'r Sulgwyn. Fe fydd safle Ysgol Treganna ac Ysgol y Berllan Deg ar agor o Ddydd Mawrth, Mai 27 – 30 tra bydd safle Ysgol Melin Gruffydd ar agor am dridau Mai 28 - 30. Yn ogystal â nifer o weithgareddau amrywiol ar eu cyfer gan gynnwys creu crefftau, coginio, chwaraeon ayb fe fydd taith i Amgueddfa Werin Sain Ffagan. Am ffurflen gofrestru, ebostiwch gwyneth@mentercaerdydd.org

**Cwis Cymraeg**
Fe fydd cwis Cymraeg nesaf y Fenter yn cael ei gynnal Nos Sul, Mai'r 25ain yn y Mochyn Du am 8pm.
£1 y person.

**Gweithgareddau i Ddysgwyr**
**Bore Coffi yn y Mochyn Du**
Mae dros 20 o ddysgwyr yn mynychu'r bore coffi ar fore Mawrth yn y Mochyn Du erbyn hyn, ond mae croeso i ddysgwyr newydd o hyd. Beth am ymuno â ni rhwng 11am a 12pm bob Dydd Mawrth am goffi a sgwrs? Fe fydd Elfed Roberts, Cyfarwyddwr Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn galw mewn am sgwrs Ddydd Mawrth, Mai 27. Mae croeso i ddysgwyr o bob safon.




**Diwrnod o Syrffio yn y Gwyr.**
Dydd Sul, Mehefin 1af. £35. Addas i blant ym mlwyddyn 4, 5 a 6. I archebu lle ffoniwch 029 20565658. Bws yn gadael Caerdydd am 8.30am ac yn dychwelyd erbyn 6pm. Pris yn cynnwys bws, hyfforddiant drwy'r dydd, wetsuit a bwrdd syrffio. Fe fydd rhaid i bob plentyn ddod â phecn bwyd i ginio.

**Coffi a Chlonc**
Mae'r bore coffi wythnosol Coffi a Chlonc yn parhau bod Dydd Mercher rhwng 12pm a 1pm yn Bar One (lan lofft) yng Nghanolfan y Mileniwm. Mae'r sesiwn yn addas i Ddysgwyr o bob safon, ac mae croeso i chi ymuno â ni i ymarfer eich Cymraeg mewn awyrgylch hwyliog.

**Hola Cómo Estás?!**
Ydych chi'n bwriadu mynd ar wyliau i Sbaen neu i Dde America'r haf hwn?
Mae Cwrs Blasu Sbaeneg 6 wythnos yn dechrau Nos Fawrth, Mehefin y 5ed, 2008 yng Nghanolfan Gymunedol Treganna, 7.15yh – 9.15 yh. Pris £30. Os hoffech wybodaeth am y cwrs neu i gofrestru cysylltwch ag Angharad ar 029 20565658

## Miri Meithrin



**Dydd Iau, Mai 29**
**Canolfan Hamdden Pentwyn**
**2pm – 3.30pm**
**£2 y plentyn wrth y drws**
**Castell Gwynt, 'Soft Play' a Paentio Wynebau**

Cyfle gwych i blant ifanc a'u rhieni gymdeithasu
mewn awyrgylch sâff a hwyliog.
Mae'r sesiynau yn addas ar gyfer plant 0 – 4 mlwydd oed

**Cwrs Blasu Cymraeg**
Yn dilyn llwyddiant ysgubol y cwrs 'Welsh for Parents' mae cwrs 8 wythnos newydd sbon sydd wedi ei gynllunio ar gyfer rhieni di-Gymraeg sydd am anfon eu plant i addysg llawn amser Cymraeg yn cychwyn ar Fai'r 13eg. Mae'r cwrs yn cynnwys gwersi Cymraeg yn ogystal â sesiynau ymwybyddiaeth iaith. Rydym wedi targedau rhieni cylcheodd Meithrin a Ti a Fi yn ogystal â rhieni sydd wedi anfon eu plant i unedau meithrin ysgolion Cymraeg y ddinas. Mae sesiwn yn ystod y dydd (10yb – 11.30yb) yn Chapter, Treganna, a sesiwn gyda'r hwyr (7yh – 8.30yh) yng Nghampws UWIC, Llandaf. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Sian Lewis – sianlewis@mentercaerdydd.org.
Ariannwyd y cwrs gan Bartneriaieth Pobl Ifanc Cyngor Caerdydd.



**Penwythnos Teulu i Langrannog, Mawrth 28 – 30, 2008**



**Taith rhai o blant y Clwb Sbargo ar gwch yn y bae**

**Eisteddfod**
GENEDLAETHOL CYMRU

# Caerdydd a'r Cylch 2008

## Cadair yr Eisteddfod a Habitat

Mae ei gwaith i'w weld ar strydoedd siopau ar hyd y wlad – ac yn cael ei gydnabod fel campwaith modern. Ond mae sialens ddiweddaraf Bethan Gray,- pennaeth cynllunio dodrefn siop Habitat,- wedi llywio'r ferch o Gaerdydd i fyd hollol wahanol. Bethan fydd yn dylunio Cadair Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd a'r Cylch eleni. Mae seremoni'r cadeirio yn un o uchafbwyntiau'r ŵyl fydd yn denu oddeutu 160,000 o ymwelwyr i'r brif-ddinas rhwng Awst 2-9.

I Bethan, cyn-ddisgybl Ysgol Gyfun Glantaf, roedd y gwahoddiad yn cynnig cyfle iddi weithio ar brosiect unigryw, sy'n gwbl wahanol i'w gwaith bob dydd. Meddai: "Roeddwn i yn falch iawn pan ddaeth yr alwad ffôn wrth yr Eisteddfod - mae o'n anrhydedd mawr. Mae wedi bod yn lot o hwyl ac yn wahanol iawn i fy ngwaith bob dydd.

"Mae gen i gysylltiadau agos iawn efo'r Eisteddfod ers pan oeddwn i'n blentyn yn cerdded y maes, ac wedyn yn f'arddegau yn gwersylla."

Bu Bethan, sy'n wreiddiol o Benylan, yn ymchwilio i hanes y gadair cyn dechrau'r gwaith, gan edrych ar luniau o gadeiriau gwahanol ar hyd y blynyddoedd. Meddai: "Yr unig arweiniad oedd fod rhaid i'r gadair fod yn urddasol ac yn cario enw'r Eisteddfod uwchben. Mae y cynllun yn cynnwys nôd cyfrin yr Eisteddfod, sydd hefyd yn cael ei adnabod fel y nôd pelydr goleuni."

Y cerflunydd Alex McDonald o Sir Benfro sy'n creu'r gadair ac yn ei hadeiladu o dderw wedi ei liwio yn dywyll, i adlewyrchu hanes diwydiannol ardal Caerdydd. Mae bywyd Bethan bellach yn fwrlwm o deithio a chynllunio. Mewn wythnos arferol gall fod yn y Gorllewin Pell yn edrych ar gynlluniau newydd neu fod yn eistedd tu ôl i ddesg yn Llundain yn creu dodren ystafell fyw. Meddai: "Byddaf yn teithio bob chwe mis i lefydd fel Asia, yr Eidal a Slofenia ac yn treulio hyd at dair wythnos yn ymweld â ffatrioedd i weld sut mae ein cynlluniau yn dod ymlaen." "Ond mae'n cymryd tua 18 mis i'r cynlluniau sy'n gadael ein swyddfa ni gyrraedd y siopau fel darn o ddodrefn."

Ar ôl astudio cwrs sylfaen yng Nghasnewydd ac yna cwrs gradd yng Nghaerlŷr llwyddodd Bethan i ddringo i'r swydd bwysig hon yn Habitat. "I wneud swydd fel hyn mae'n bwysig gallu gweld beth sy'n gweithio a beth sy'n edrych yn dda," meddai. "Mae ganddom ni steil ar gyfer bob tymor ac yn creu palette lliw ar eu cyfer. Weithiau mae rhai o'r trends yn dod o'r byd ffasiwn sydd o'm cwmpas." Fe fydd enillydd y gadair y flwyddyn yma yn cael rheswm ychwanegol i ddathlu ei lwyddiant/llwyddiant.

Ysgolion cyfrwng Cymraeg Caerdydd sydd yn rhoi'r gadair ac mi fydd yn cael ei chyflwyno yn swyddogol i'r Eisteddfod yn fuan.

**Trefniant mynychu'r Oedfa**

Yn dilyn trafodaethau rhwng Eisteddfod Genedlaethol Cymru a Cytûn gellir archebu tocynnau am ddim sy'n rhoi mynediad i'r oedfa a gynhelir yn y pafiliwn ar fore Sul Awst 3ydd am 10 y bore yn unig ar wefan Cytûn – www.cytun.org.uk neu drwy ffonio swyddfa Cytûn ar 029 2046 4204. Rhaid i'r ceisiadau am docynnau ar gyfer mynediad i'r oedfa yn unig fod wedi cyrraedd Cytûn erbyn 30 Mehefin, 2008.



**Plant Bro Eirwg yn cyflwyno'r siec i Huw Llewelyn Davies.gyda'r Paffiwr Jamie Arthur a Prifathrawes Bro Eirwg, Gaynor Williams.**

**Ysgol Bro Eirwg – Cyflwyno Siec**

Cyflwynwyd siec o £1,800 i gadeirydd y Pwyllgor Gwaith yn ddiweddar gan Ysgol Bro Eirwg. Ffrwyth llafur sgipio noddedig gan ddisgyblion yr ysgol. Bu 380 o blant yn cymryd rhan yn y gweithgaredd dan gorychwiliaeth un o'r rhieni, y paffiwr Jamie Arthur. – Diolch yn fawr i bawb gymrodd rhan.

**Noson Lawen yng nghwmni Joy ac Alwyn**

Mae Pwyllgor Apêl Cyncoed, Penylan, Llanedeyrn, Y Rhath, Pentwyn a Phontprennau (phew!) wedi trefnu 'Sain, Cerdd a Sgandal', noson hwyliog yng nghwmni Joy ac Alwyn Humphreys yn y *Gate*, Stryd Keppoch, Y Rhath ar Nos Wener 6 Mehefin. Mae'r tocynnau yn £6 yr un. Cysylltwch â Rhun ar 20755118 am fwy o fanylion.




**Ar Log a Daniel Lloyd a Mr Pinc mewn noson arbennig a drefnwyd gan griw Llysfaen a'r cylch tuag at Apêl yr Eisteddfod.**

## Nwyddau Eisteddfod Caerdydd



Cynhyrchwyd nifer o nwyddau i farchnata Eisteddfod Caerdydd eleni. Mae'r nwyddau yn cynnwys crysau T, crysau polo, mygiau a phlât arbennig a gynllunwyd gan yr artist Lowri Davies. Defnyddiwch y ffurflen hon i archebu eich nwyddau.



Eisteddfod
GENEDLAETHOL CYMRU

CAERDYDD A'R CYLCH 2008 / CARDIFF & DISTRICT 2008

NWYDDAU A PHRISIAU

| Eitem | Pris | Nifer | Is-gyfanswm |
|---|---|---|---|
| **CrysT – babi (pinc / glasddu)** | | | |
| Maint 6-12 mis | £6.00 | | |
| Maint 12-24 mis | | | |
| **Crys T – plentyn (pinc / glasddu)** | | | |
| Maint 3/4 oed | £6.00 | | |
| Maint 5/6 oed | | | |
| Maint 7/8 oed | | | |
| Maint 9/10 oed | | | |
| Maint 11/12 oed | | | |
| Maint 13/14 oed | | | |
| Maint oedolyn bach (pinc yn unig) | £8.00 | | |
| Maint oedolyn canolig (pinc yn unig) | £8.00 | | |
| **Crys Polo Merched (piws)** Maint Mawr | £12.00 | | |
| **Crys Polo Dynion (marŵn / glasddu)** Maint B, C, M, XM | £12.00 | | |
| **Plat Eisteddfod Caerdydd** | £30.00 | | |
| **Mygiau** (2 gynllun) | £3.50 | | |
| **Beiros** | .50c | | |
| **CYFANSWM** | | | |

Enw ..........................................................

Cyfeiriad ..........................................................

.......................................... Cod Post ..........................

Ffôn ..........................................................

## CYSTADLEUAETH ARBENNIG I'R PLANT!

I ennill crys T plentyn atebwch y cwestiwn hwn a gyrrwch eich ateb gyda'ch enw a'ch maint at olygydd y rhifyn hwn i
27 Llantrisant Rise, Llandaf.
CF5 2PG - 20575439
erbyn 20 Mai 2008.

**Fe fydd Dic Jones yn dechrau ar ei swydd bwysig newydd yn Eisteddfod Caerdydd.**
**Pa swydd fydd ganddo?**

a) Archfarchnad
b) Archesgob
c) Archdderwydd
ch) Arch Noa

### Caerdydd a'r Eisteddfod
## Arwyddion Cymraeg yn Gyntaf

Er mawr gywilydd, y mae Cyngor Dinas Caerdydd, Prifddinas Cymru, yn gosod y Saesneg uwchben y Gymraeg, neu ar y chwith i ragflaenu'r Gymraeg. Y mae'r arwyddlun diweddar a luniwyd ganddynt i hyrwyddo Caerdydd yn un enghraifft arall o amarch tuag at iaith frodorol Cymru. Droeon ceisiais eu perswadio i newid eu polisi. Ni lwyddwyd eto, ond mae'r frwydr yn parhau.

Mewn cyfarfod o Gyngor Eisteddfod Genedlaethol Cymru rai misoedd yn ôl gofynnais yn benodol i swyddogion yr Eisteddfod geisio sicrhau y bydd yr holl arwyddion eisteddfodol y mae Cyngor Dinas Caerdydd yn gyfrifol amdanynt yn cael eu gosod naill ai gyda'r Gymraeg uwchben y Saesneg, neu yn gyntaf, ar y chwith mewn da bryd erbyn Eisteddfod Awst 2008. Nid oeddwn am weld ailadrodd yr hyn a ddigwyddodd yn Sir Y Fflint y llynedd.

Yng nghyfarfod Cyngor yr Eisteddfod, 12 Ebrill, adroddwyd nad oedd Dinas Caerdydd yn gallu gweithredu'r hyn y gofynnwyd amdano. O glywed yr ateb hwn gwnaed apêl ar i holl aelodau Cyngor yr Eisteddfod ysgrifennu at Gyngor Dinas Caerdydd (Swyddog Y Gymraeg, Neuadd y Sir, Y Bae, Caerdydd, CF11 4UW) i ofyn iddynt ganiatáu'r cais cwbl resymol a wnaed gan Swyddogion yr Eisteddfod. A dyma finnau nawr yn gofyn i holl ddarllenwyr y papur hwn wneud yr un modd.

Os bydd Cyngor Dinas Caerdydd yn parhau i ddweud 'na', yna dyma achos teilwng i'r Cynulliad ymyrryd.

Canmil diolch am bob cefnogaeth.

Robin Gwyndaf

# Newyddion

**Gŵyl Ddrama Un Act yn Theatr y Crwys**

Cafwyd cefnogaeth sylweddol i'r Ŵyl Ddrama dan nawdd Eglwysi'r Crwys a Minny Street pan gyflwynwyd 'Dydd y Cymod' gan Gymdeithas Ddrama Minny Street a 'Pethma' gan Theatr y Crwys. Hywel Gwynfryn gynhyrchodd ddrama Minny Street a Betsan Evans gynhyrchodd ddrama'r Crwys. Llongyfarchiadau i'r ddau gwmni am eu gwaith.

**Llongyfarchiadau** i Llinos a Gwilym Davies ar enedigaeth merch, Alaw Grug a ddaeth i'r byd ar 3 Chwefror a hefyd cefnder i Alaw sef Owain Gethin a anwyd ar 23 Chwefror, mab i Einir ac Anthony Kirkwood a brawd i Tomos Iwan.

**Croeso i'r byd** i Mali Fflur, merch fach Rolant a Hannah. Mae Rolant Elis Tomos yn un o feibion Dafydd ac Elen (Dolgellau) a Hannah yw merch Billy Raybould - mae o a'i wraig yn byw yn Ffrainc ar ôl ymddeol. Mae Rolant a Hannah yn byw yn Sain Nicolas yn y Fro.

Ar yr un diwrnod, ganwyd Martha Teifi, merch i Gruff Davies a Rebecca Evans, wyres i Elinor Davies Llandaf a Barbara a Siarlys Evans, Rhiwbeina. Croeso mawr i hithau hefyd!

**Llongyfarchiadau** i Caryl Parry Jones ar ddathlu pen-blwydd arbennig ar 16 Ebrill.

**'Pawb a'i Farn' yn Rhiwbeina**

Cafwyd noson ddifyr yng nghyfarfod misol Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina ar 21 Ebrill pan ymddangosodd David Jones, Ethni Jones, Rhiannon Gregory a Malcolm Thomas ar banel 'Pawb a'i Farn'. Cadeiriwyd y cyfarfod gan Falmai Griffiths, Cadeirydd y Gymdeithas.

***Gone With The Wind***

Er i dros ddwy fil o drigolion tre'r Barri arwyddo deiseb i gadw sinema'r *Theatre Royal* ar agor, caeodd y sinema ar nos Iau 10 Ebrill hefo dangosiad o'r ffilm *'The Smallest Show on Earth'*. Mae hi'n draddodiad mai'r ffilm hwn gaiff ei ddangos ar noson olaf unrhyw sinema. Adeiladwyd y sinema ym 1910 a bu cenedlaethau o bobl Y Barri yn ei fynychu. Mae ei gau wedi peri tristwch i lawer yn yr ardal.

**YNYS Y GALON …**
**O'r Bala i Gwm Rhondda**

Mae arddangosfa o waith diweddar Iwan Bala ble mae'n defnyddio mapiau i ailddiffinio Gwalia - **Ynys y Galon** yn oriel Parc Treftadaeth Cwm Rhondda ac yn parhau tan 29 Mehefin 2008. Mae'r arddangosfa yn cynnwys gwaith newydd ynghyd â detholiad o luniau o'r gyfrol **Hon, Ynys y Galon** a gyhoeddwyd gan Wasg Gomer y llynedd. Dyma'r arddangosfa fydd yn cynrychioli celfyddyd Cymru yng Ngŵyl Ryng-Geltaidd An Oriant yn Llydaw fis Awst. Yn briodol bydd Iwan Bala yn ymuno â phanel detholwyr Arddangosfa Eisteddfod Genedlaethol Meirion a'r Cyffiniau y flwyddyn nesa' Pan oedd y Brifwyl yn Y Bala ddiwetha' yn 1997 dyfarnwyd Y Fedal Aur am Gelfyddyd Gain iddo.

**YNYS Y BARRI… (wel digon agos)**

Mae yna hysbyseb ar y teledu yn tynnu'n sylw at y syniad pan mae rhywbeth clyfar yn digwydd rhywle yn y byd mae yna rywbeth twp yn digwydd yn rhywle arall! Wel, dyma enghraifft o'r ddau yn yr un lle ar yr un pryd. Diolch byth fod rhyw swyddog anhysbys o Gyngor Tref Y Barri efallai wedi bod yn ddigon clyfar i sylwi fod un slaban wedi ei gosod a'i phen i lawr yn dilyn ail-lunio canol y dre - clyfar. Ond pwy oedd mor dwp â'i gosod a'i phen i lawr yn y lle cyntaf? Dyna'r cydbwysedd rhwng clyfar a thwp wedi ei brofi unwaith eto!




**Whilber yn dod â gwobr i Ysgol Treganna**

Yn ystod Sioe Flodau'r RHS a gynhaliwyd yn ddiweddar yng Ngerddi Castell Caerdydd enillwyd y gystadleuaeth i addurno whilber â blodau a phlanhigion gan blant ifancaf Ysgol Treganna. Da iawn blant!

# Lolfa Thai



Mae Iwan Jones, Perchennog bwyty newydd 'Lolfa Thai' yn yr Eglwys Newydd , yn dod yn ôl i'w wreiddiau.

Fel cyn ddisgybl o Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf , fe dyfodd Iwan i fyny yn Heol Bishop yn yr Eglwys Newydd. Fe symudodd i Lundain i ennill gradd Economeg a Daearyddiaeth ym Mhrifysgol London School of Economics. Fe arosodd yn Llundain am saith mlynedd gan weithio mewn swydd gyda Chyngor Westminster.

Daeth yn ôl i Gaerdydd i fyw yn 1997 gyda'i wraig Catrin Jones, hefyd yn cyn ddisgybl o Glantaf. Fe anwyd merch fach, Elen Iona yn 1998.

Ar ôl blynyddoedd o weithio mewn swyddfeydd fe benderfynodd Iwan i ddilyn ei freuddwyd o weithio gyda bwyd. Fe agorodd gaffi o'r enw Cafe Cibus yn West Bute Street yn y Bae , ac ar ôl 5 mlynedd lwyddiannus fe benderfynodd fentro mewn i fyd tai bwyta .

Felly ar ddiwedd Mis Mawrth, fe agorwyd y Lolfa Thai uwchben Pizzeria Villagio yn yr Eglwys Newydd gyda'r bwriad o ddod a bwyd iachus a blasus Thai i farchnad newydd lleol.

Meddai Iwan 'Mae'r bwyty wedi bod yn brysur ers agor ac mae'n bleser i gynnig safon uchel o fwyd mewn awyrgylch modern a chyfforddus yn yr Eglwys Newydd. Mae'r lleoliad yn boblogaidd a chyfleus, ac mae llawer o dai bwyta yn cynnig dewis mawr o fwyd yn y pentref nawr. Mae'r fwydlen wedi ei gyfieithu i'r Gymraeg ac mae hyn yn elfen bwysig o gynnig gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ym mhrif ddinas Cymru.

**Beth am drefnu taith i Eglwys Sain Tathan ym Mro Morgannwg?**

Cewch Groeso Cymreig -
Te (wrth gwrs!)
a Hanes yr Eglwys Brydferth hon.

**Ffoniwch Elinor ar 01446-751950**
am fanylion pellach.

# Chwaraeon

**Sports Aid yn elwa o gamp Iwan**
Llongyfarchiadau i Iwan Walters, Pontcanna ar gwblhau Marathon Llundain mewn tair awr a phum munud ar hugain gan godi swm sylweddol tuag at yr elusen *Sports Aid*.

Beth am wybodaeth am bawb o'r brifddinas a redodd yn Llundain.

**Medal Arian i David Davies…**
Mewn pencampwriaeth nofio ym Manceinion yn ddiweddar enillodd David Davies o'r Barri fedal arian yn y ras dull rhydd dros 1500 metr. Bydd yn cystadlu yn Seville yn ystod mis Mai a'r gobaith ydy ei weld yn ennill medal yn y Gemau Olympaidd yn Beijing yn ystod yr Haf. Pob lwc iddo.

**… a Medal Aur i Geraint**
Roedd y beiciwr Geraint Thomas o'r Eglwys Newydd yn cystadlu hefo'i gyd feicwyr ym Mhencampwriaethau Seiclo'r Byd ym Manceinion dros Y Pasg ac fe enillon nhw fedalau aur yr un mewn ras arbennig i dîm o bedwar gan dorri record byd yn y gystadleuaeth. Llongyfarchiadau i Geraint a'i gyd feicwyr a hwyl fawr i hwythau ym Beijing hefyd.

# Pêl-droed yr Urdd



**Tîm pêl-droed Ysgol Melin Gruffydd**

Ar Fawrth y 17eg 2008, ymgasglodd 14 o dimau pêl-droed Cynradd Caerdydd a'r Fro yng Ngerddi Soffia ar gyfer twrnament pêl-droed saith bob ochr yr Urdd. Gyda'r enillwyr yn mynd trwodd i'r rowndiau Cenedlaethol yn Aberystwyth ym mis Mai, roedd y chwaraewyr i gyd (a'u rheolwyr awyddus!) yn frwdfrydig i gyrraedd y rowndiau terfynol.

Gyda'r haul allan, ond y tywydd ychydig yn oer, fe gychwynnodd y gemau grwpiau tua 10 o'r gloch. Roedd nifer o gemau agos, gyda thipyn o goliau yn cael ei sgorio. Dim ond lle i 8 o dimau oedd yn y gemau terfynol a'r timau hynny oedd:

Melin Gruffydd v Sant Baruc
Albert v Llanishen
Marlborough v Bro Eirwg
Sant Curig v Pwll Coch

Roedd y gemau hyn yn gyffrous iawn, hefo gêm Albert a Llanishen yn cael ei phenderfynu gan giciau o'r smotyn, gyda Llanishen yn llwyddiannus!

Gyda'r gemau cynderfynol nesa, roedd y pwysedd yn dechrau codi. Gêm orau y rownd, os nad y twrnament, oedd Melin Gruffydd v Sant Curig.

Gyda'r ddau dîm yn gyfartal, hefo amser ychwanegol yn cael ei chwarae, ciciau o'r smotyn oedd ar y cardiau. Ond gyda 4 eiliad ar ôl sgoriodd Melin Gruffydd i dorri calonnau tîm Sant Curig. Anlwcus iawn i gôl-geidwad Sant Curig, oedd o wedi cael gêm arbennig o dda.

Felly i'r ffeinal….. Melin Gruffydd v Marlborough…

Llongyfarchiadau i Ysgol Gynradd Melin Gruffydd am ennill 4 - 0 yn y rownd derfynol yn erbyn Marlborough, bydd rhaid ymarfer yn galed nawr i'r rowndiau Cenedlaethol yn Aberystwyth! Pob lwc!

Dyma rhai o dripiau'r Urdd yn ystod yr haf

Trip i Oakwood i blwyddyn 5 a 6 ar Dydd Sadwrn 7fed Mehefin.

Taith i Penbre oedran cynradd Dydd Sadwrn 12fed o Orffennaf.

Taith Uwchradd blwyddyn 7 ag 8 Dydd Sul 13eg o Orffennaf.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:
geraint@urdd.org

# Lesyns History
## (Parhad o dudalen 1)

Ond, er i'w ymgyrchu dwysau yn ystod yr wythnosau diwethaf 'dyw Neil McEvoy a'i griw gweithgar ddim wedi llaesu dwylo ers yr etholiad diwethaf. Bu'n gweithio'n ddi-dor yn yr ardal, yn ymweld â'r trigolion, yn cynhyrchu taflenni newyddion yn gyson ac yn sicrhau ei fod yn ddyn y gall yr etholwyr ymddiried ynddo. I roi cyfle i ymgyrchu dwys fel hyn i lwyddo rhaid targedu seddau enilladwy a chanolbwyntio adnoddau prin arnynt. Y pris am hyn ydy rhoi llai o ymdrech mewn seddau llai addawol. Prin oedd unrhyw ymgyrchu yn ardal Llandaf er enghraifft.

Prif feistri'r dacteg hon ydy'r Rhyddfrydwyr Democrataidd. Targedwyd ardaloedd 'addawol' fel Llandaf, yn ddidrugaredd. Cafwyd llenyddiaeth amrywiol trwy'r drysau'n feunyddiol - dau ar ddiwrnod yr etholiad - taflenni, papurau newydd a hyd yn oed llythyrau 'personol' wedi eu cyfeirio'n benodol at etholwr unigol. Dilynwyd hyn gan alwadau ffôn.

Tacteg effeithiol arall wrth gwrs oedd i dargedu'r Blaid Lafur yn benodol. Er i gynrychiolydd o'r *Lib Dem,* mewn cyfweliad ar Radio Cymru, gondemnio ymosodiadau personol pleidiau eraill mewn rhannau o Gymru, mabwysiadwyd y dacteg hon ganddynt ar draws y ddinas. Penderfyniad bwriadol oedd i dargedu cyn arweinydd Cyngor y Ddinas wrth gyfeirio, bron yn ddieithriad at *Russell Goodway's Labour Party*. Dim ond pleidlais i'r *Lib Dems* oedd yn sicr o gadw'r dyn hwn rhag sleifio yn ôl i'r Cyngor! Tacteg a dalodd ar ei ganfed!

Bedair blynedd yn ôl gwelwyd y *Lib Dems* yn arwain Cyngor y Ddinas ac er iddyn nhw ddangos naïfrwydd gwleidyddol gan geisio mabwysiadu nifer o syniadau oedd yn cythruddo'r cyhoedd maent wedi tynhau eu gafael ar y Cyngor. Efallai fod eu parodrwydd i ail-feddwl, i wrando ar farn y cyhoedd ac i syrthio ar eu bai yn wers arall i'w dysgu - yma ac mewn ardaloedd eraill ymhell o Gaerdydd..

# Newyddion o'r Eglwysi

## Eglwys y Crwys

**Gŵyl Ddrama**
Bu'r Ŵyl Ddrama Un Act a gyflwynwyd gan eglwysi Minny Street a'r Crwys ar nosweithiau Mawrth, Mercher ac Iau Ebrill 15fed, 16eg ac 17eg yn llwyddiant mawr. Bu'r theatr yn gyffyrddus lawn ar y tair noson gyda'r gynulleidfa yn mwynhau dau gynhyrchiad oedd yn gwbl wahanol i'w gilydd. Drama wedi ei selio ar ddigwyddiadau yn dilyn yr Ail Ryfel Byd oedd 'Dydd y Cymod' a lwyfannwyd gan Gymdeithas Ddrama Minny Street tra i Theatr Crwys gyflwyno 'Pethma' drama oedd yn gymysg o'r chwerw, y melys a'r doniol. Cyfarwyddwyd cynhyrchiad Minny Street gan Hywel Gwynfryn a'r Is-Gyfarwyddwr oedd Gill Griffiths. Cyfarwyddwyd Pethma gan Betsan Evans a'r Is-Gyfarwyddwr oedd Arran Dallimore

**Apêl Sierra Leone.**
Fel rhan o apêl y cyfundeb i godi arian at yr ymgyrch i wella ansawdd bywyd pobl y rhan yma o ogledd orllewin cyfandir yr Affrig bu'r aelodau yn Eglwys y Crwys yn hael iawn eu cyfraniadau ac fe gasglwyd y swm anrhydeddus o £6,168.

**Y Grŵp Merched.**
Ar Nos Lun Ebrill y 7fed cafodd y Grŵp Merched noson hwylus a difyr yng nghwmni Iona Williams, cafwyd ganddi anerchiad bywiog oedd yn cyfleu ei phrofiad fel meistres y gwisgoedd ym myd y theatr a'r teledu.

**Operation Friendship Cyfeillion Rhyngwladol.**
Ers rhyw ugain mlynedd bellach mae nifer o ieuenctid Y Crwys wedi cyfnewid gyda'u cymheiriaid yn y Taleithau Unedig. Fel arfer tueddant i fynd i daleithau Massachusetts ac Indiana. Tro yr Americanwyr yw dod yma eleni ym Mis Gorffennaf. Mae gan bob grŵp eu harweinydd a chant aros yng nghartrefi yr ieuenctid sy'n dymuno teithio'r flwyddyn ddilynol. Eleni a'r flwyddyn nesaf ein harweinydd ni yma yn Y Crwys fydd Hanna Jones. Bydd y gweithgareddau yn amrywio rhwng beicio a threulio diwrnod ar y traeth yn Nhresaith.

**Marwolaeth.**
Ar ddiwedd Mis Ebrill collwyd o'n plith Mrs Avril Lewis gwraig Mr Eurion Lewis, bu Eurion yn organydd yn yr eglwys am nifer o flynyddoedd a chydymdeimlir yn ddwys ag ef, y merched Rhian a Meinir a'u teuluoedd yn eu colled fawr.

## Tabernacl, Yr Ais

**Cyflwyno**
Achlysur hapus i bawb yn oedfa'r ifanc ddechrau mis Mawrth oedd gweld cyflwyno Liwsi Nel, merch Marc Jon a Rhian Williams, a chwaer fach Osian. Edrychwn ymlaen at ei gweld yn tyfu yn ein plith.

**Cofio Menna Davies**.
Mewn diolchgarwch y cofiwn am Menna Davies, a fu farw yn Ysbyty Llandochau nos Lun Ebrill 8fed. Bu'n ddiacon yn yr eglwys ers 1965, ac yn barod ei chymwynas mewn llu o agweddau ar fywyd yr eglwys. Roedd yn wraig urddasol a defosiynol ei gwedd, ac o dan yr wyneb ffurfiol roedd wrth ei bodd yn hel atgofion a rhannu hwyl. Cafodd y gofal o'r safon uchaf yn y cartref yn Llanisien a gwerthfawrogai ymweliadau ei chyfeillion o'r Tabernacl.

**Llwyddiant Eisteddfodol.**
Bu nifer dda o blant a phobl ifanc yr eglwys yn profi hwyl cystadlu yn Eisteddfodau lleol a sirol yr Urdd. Daeth dau o'u plith yn amlwg mewn cystadlaethau unigol sef Steffan Long fel unawdydd o dan 9 oed ac Isaac Richards fel adroddwr dan 9 oed. Mae'n braf gweld doniau ifanc yn blodeuo fel hyn.

**Cymdeithas Nos Fawrth**
Ddiwedd mis Mawrth daeth Patrick Whelan draw atom i son am ei hanes yn dysgu'r iaith Gymraeg. Roedd yn noson wych yng ngofal person a godwyd ar aelwyd hollol Saesneg yn Llundain ond sydd erbyn hyn yn rhugl yn y Gymraeg. Y Parch Cynwil Williams oedd y siaradwr gwadd ddechrau Ebrill. Noson arbennig arall wrth iddo son am un o'i Gyfeillion Dylanwadol – a hwnnw'n neb llai na'r anfarwol Eirian Davies. Fel arfer daeth tymor y Gymdeithas i ben gyda chyngerdd gan Gôr Cantemus. Roedd y safon unwaith eto yn arbennig a diolch iddyn nhw am eu cyfraniad unigryw.

**Cymdeithas y Chwiorydd**
Brethyn Cartref oedd testun y cyfarfod ddiwedd Mawrth. Cafwyd hanesion o'r ardaloedd lle cawsant eu codi gan bump o'r aelodau. Roedd Mary Thomas, Verina Matthews, Marian Williams, Alwen Kemp a Beryl Eurig i gyd yn dod o ardaloedd mor wahanol i'w gilydd - ychwanegodd hyn gymaint at brynhawn diddorol iawn. Ddechrau Ebrill Diana Owen fu'n siarad am Hen Gymeriadau a'i hatgofion am bobl wnaeth argraff arni yn ardal Blaen-ffos. Coronwyd gwaith y flwyddyn gyda chinio blasus dros ben yng Ngwesty'r Marriott i ddathlu pen-blwydd dwy o'r aelodau yn 80 mlwydd oed.

## Ebeneser, Heol Siarl

**Gwobr haeddiannol**
Mae lle gennym yn Ebeneser i ymfalchïo yn un o'n hieuenctid. Yn ddiweddar enillodd Meilyr Hughes Gwobr Goffa Richard Rice yn y datganiadau cerddorol blynyddol yng Ngholeg Cerdd a Drama, Caerdydd. Derbyniodd £2500 i ddatblygu ei ddawn a'i helpu i gyrraedd ei lawn botensial. Mae'r wobr er cof am Richard Rice laddwyd yn nhrasiedi ffrwydriad Deal ym mis Medi 1989, ac yn agored i aelodau o ensemble Cyngor Dinas Caerdydd a Bro Morgannwg. Pob dymuniad da iddo i'r dyfodol.

**Colli aelod ffyddlon**
Tristwch o'r mwyaf i ni fel eglwys oedd clywed am farwolaeth ddisymwth Alun Roberts ar nos Sadwrn 15 Mawrth. Bu'n ddiacon gweithgar a diflino am dros ugain mlynedd. Er ei fod wedi bod yn sâl yn ddiweddar, sydyn ac annisgwyl oedd ei farwolaeth. Mae ein cydymdeimlad dwysaf yn mynd i Buddug ei wraig Angharad, Geraint a'r teulu.

**Sul yr Aelodau**
Ar fore Sul 30ain Mawrth cynhaliwyd gwasanaeth yr aelodau. Malcolm Thomas drefnodd y gwasanaeth a chymerwyd rhan gan nifer o'r aelodau drwy gyhoeddi emynau, ddarllen o'r Ysgrythur, a darllen myfyrdodau Testun y gwasanaeth, yn addas iawn i'r adeg o'r flwyddyn oedd, "Y daith i ac o Emaus". Byrdwn y neges oedd mai ni yw'r ddau ar daith ond fod perygl i ni beidio gweld, derbyn a dilyn Iesu. Fel Cristnogion allwn ni ddim adeiladu ar ein ffydd heb y tri pheth hyn. Diolch i Malcolm am drefnu unwaith eto ac i bawb gymerodd rhan.

**Cau tymor y Gymdeithas**
Pa ffordd well i gau tymor y gymdeithas nac i gael cyflwyniad ar y diweddar T Glynne Davies gan rhai o'i deulu sy'n aelodau gyda ni yma yn Ebeneser. Dyma'r cyflwyniad draddodwyd yn y Babell Lên y llynedd, yn Eisteddfod Genedlaethol y Fflint. Ei fab, Aled gymerodd yr awenau gan gyflwyno peth o hanes ei dad, a chwarae *dvd* trwy garedigrwydd S4C, o atgofion aelodau eraill o'r teulu a ffrindiau. Darllenodd Avril ei wraig, a Gwenllian a Gruffydd, y plant, allan o ddwy gyfrol gan T Glynne sef 'Hedydd yn yr Haul' ac 'Atgofion'. Braf iawn hefyd oedd cael clywed cerdd ysgrifennodd T Glynne i Aled ac Avril ar achlysur eu priodas, ac englyn wedyn ar enedigaeth Gwenllian. Cafwyd noson hwyliog iawn mewn awyrgylch cartrefol iawn. Gwnaed y diolchiadau gan Glesni Whettleton. Edrychwn ymlaen yn eiddgar at y tymor newydd o fis Medi nesaf.

## *Minny Street, Caerdydd*

**Geni a Bedydd**
Croesawn **Macsen Dafydd Gwyn**, mab Rolant a Rhian, ac ŵyr Aled Gwyn, yn gynnes iawn i'n plith.

Bu'n braf cael tystio i fedydd **Jemeima Fflur John** – merch Elin a Ben (Sblot) ac wyres Tegwen a John Albert Evans fore Sul cyntaf mis Ebrill.

**Cwmni Drama**
Cafwyd tair noson arbennig yng nghwmni cwmnïoedd drama Minny Street a'r Crwys ym mis Ebrill yn yr Ŵyl Ddrama Un Act yn Theatr y Crwys. Gyda chwmni Minny Street yn cyflwyno "**Dydd y Cymod**", drama rymus am deulu o Iddewon mewn gwersyll adleoli yn y pumdegau, rhoddwyd hwb i'n hymdrech elusennol eleni. Cyflwynwyd canran Minny Street o elw'r nosweithiau i Gronfa Emma - cronfa i gefnogi a hybu ymwybyddiaeth o waith y "Bishop Home Trust" sydd am sicrhau cartref arbenigol yng Nghaerdydd i oedolion ifanc ag anghenion dwys a pharhaol.

**Marathon Llundain**
Edmygwn ffitrwydd a dycnwch dau o'n haelodau wrth iddynt lwyddo i redeg marathon Llundain eleni. Roedd **Iwan Walters** yn rhedeg er budd Sports Aid tra bo **Rhian Fenn** wedi sicrhau nawdd ar gyfer ein helusen, Cronfa Emma. Cyfle i aelodau gefnogi'n ariannol tra bo rhywun arall yn gwneud y gwaith caled!

## Cydymdeimlo

**Cydymdeimlwn** â theulu'r diweddar Gwen Stanton, Penarth. Er i Gwen gael ei magu ym Manceinion cyn ymgartrefu ym Mhenarth roedd ei gwreiddiau yn ddwfn yn ardal Rhosmeirch, Sir Fôn.

**Cydymdeimlwn** â theulu'r diweddar Menna Davies a fu farw'n dawel yn Ysbyty Llandochau yn 95 oed ar 7 Ebrill. Bu'r angladd yn y Tabernacl ac yn dilyn yn Amlosgfa'r Ddraenen.

**Cydymdeimlwn** ag Eurion Lewis Y Mynydd Bychan a'r teulu ar farwolaeth Avril ar 20 Ebrill. Cafwyd gwasanaeth o ddiolch am ei bywyd yn Amlosgfa'r Ddraenen ar 29 Ebrill.

# 'Coro di Caerdydd' yn dychwelyd i'r Eidal



Ar ddechrau mis Ebrill cafodd Côr Caerdydd y cyfle i ddychwelyd i'r Eidal i berfformio eto yng nghwmni Academi Llais Rhyngwladol Caerdydd. Y tro hwn, perfformiwyd y Requiem gan Gabriel Faure yn ogystal â 'Gradual' gan Bruckner a darn allan o'r Stabat Mater gan Handel. Yr arweinyddion oedd Massimiliano Murrali a Gwawr Owen. Mae'r Côr wedi cael mwynhad arbennig o'u profiadau yn yr Eidal a'u cysylltiad gyda'r Academi ac maent yn ddiolchgar i Dennis O'Neill am y cyfle i berfformio eto ym mhentref Barga yn 2008.

Dyma'r ail dro i'r Côr berfformio yn Barga. Cafodd y gynulleidfa fwynhad o'r gyngerdd gyda nifer o ymwelwyr o Brydain yn eu plith. Yn 2007 perfformiodd y Côr 'Petite Messe Solonnelle' gan Rossini yn yr Eglwys Gadeiriol (Duomo), profiad oedd eto'n fythgofiadwy.

Bydd Côr Caerdydd yn rhan o Gôr yr Eisteddfod Genedlaethol pan ddaw i Gaerdydd ym mis Awst 2008 ac yn ddiweddar mae wedi cymryd rhan mewn cyngerdd mawreddog oedd yn dathlu pen-blwydd Dennis O'Neill yn 60 oed yng Nghanolfan Mileniwm Cymru.

Os hoffech chi gael profiadau bythgofiadwy, mae croeso i aelodau newydd ymuno. Mae'r Côr yn ymarfer bob nos Fercher am 8.00pm; ac ar hyn o bryd cynhelir yr ymarferion yng Nghapel Bethlehem yng Ngwaelod y Garth. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â'r arweinyddes, Gwawr Owen ar 029 2069 1924 neu drwy e-bost ar gwawr.owen@btinternet.com. Croeso i chi hefyd ymweld â'r wefan sef www.corcaerdydd.com

Siân Couch

## *Eglwys Dewi Sant*

**Ysgoloriaeth Rosser**
Cyfraniadau ariannol aelodau Eglwys Dewi Sant er cof am y diweddar Ganon R.M. Rosser, (ficer yr eglwys o 1935 hyd 1965), a'i gwnaeth yn bosibl i'r eglwys benderfynu sefydlu Ysgoloriaeth Organ.

Y cyntaf i dderbyn yr Ysgoloriaeth yn 2001 oedd David Leggett, - organydd a chôr-feistr presennol yr eglwys.

Yn ddiweddar, cynigiwyd yr Ysgoloriaeth i fyfyriwr ifanc arall: mae Ieuan Jones ar ei ail flwyddyn o gwrs gradd-cerddoriaeth ym Mhrifysgol Caerdydd. Yn frodor o Fryn'refail, Ynys Môn, ac aelod yno o Eglwys Blwyf Penrhoslligwy, bu Ieuan yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf yn addolwr cyson yn Newi Sant a daeth yn aelod o gôr yr eglwys.

Er mai piano yw ei brif offeryn, mae'r Ysgoloriaeth yn ei alluogi, gyda chydweithrediad agos ag Adran Gerddoriaeth y brifysgol, i dderbyn gwersi ar yr organ ac i fod yn organydd Ysgoloriaeth Rosser yn Eglwys Dewi Sant.



# Ysgol Gyfun Glantaf

**Chwaraeon**

Llongyfarchiadau i dimau rygbi Bl.8 a Bl.9 am ennill Cwpanau Ysgolion Caerdydd yn erbyn Radyr yn y Rownd Derfynol.

Bl.8: 31 – 10 Bl. 9: 17 – 12

Llongyfarchiadau i ferched hoci blwyddyn 8 a merched pêl-rwyd blwyddyn 7 ar ennill pencampwriaeth ysgolion Cymraeg De Orllewin Cymru yn ddiweddar.

**Ysgoloriaethau**

Llongyfarchiadau i'r canlynol am ennill Gwobr Teilyngdod Prifysgol Aberystwyth:

Angharad Elin Hughes (Cymraeg a Drama), Gruffydd John (Ffiseg a Mathemateg Pur), Lowri Llewellyn (Cymraeg a Drama), Owen Llewelyn (Y Gyfraith ac Almaeneg)

Ysgoloriaeth Prifysgol Exeter: Catrin Treharne (Mathemateg)

**Gŵyl Heddwch**

Llongyfarchiadau i nifer o ddisgyblion Glantaf a enillodd gystadlaethau "Gwrandewch arna i" yng Ngŵyl Heddwch Caerdydd a'r Fro eleni. Cafwyd noson wobrwyo yn Neuadd y Sir ar yr 20fed o Fawrth lle derbyniodd yr enillwyr eu gwobrau gan Faer Caerdydd. Canmolodd y beirniad safon uchel iawn y gwaith yn enwedig proffesiynoldeb y gystadleuaeth DVD.

Ysgrifennu Creadigol:
1af Alys Walsh
2il Lois Randal
3ydd Rebecca Thomas
Cystadleuaeth DVD:
1af Grŵp Dewi – Dewi Preece, Elan Evans, Cadi Allen, Manon Richards, Rhys Patchell a Trystan Williams – blwyddyn 10
4ydd Grŵp James – blwyddyn 9
Llongyfarchiadau mawr i chi gyd!

**HIEACYMRU**

**Archwiliwr Tai**

(Residential Surveyor) a HIPs

Os yn prynu neu gwerthu eich cartref, cysylltwch gyda HIEAcymru am wasanaeth da a phrisiau cystadleuol.

www.hieacymru.co.uk

**07891222718**

## Bandiau Iau yn Rocio'r Eglwys Norwyeg





**Cerys Brokenshaw a Siôn Dawson**

Gyda'r glaw yn pistyllu lawr yng nghalon y Bae a'r gwynt yn chwythu'n gryf, bu cant o bobl ifanc yn ffeindio'i ffordd i'r Eglwys Norwyeg gan fod noson o ddiddanwch a cherddoriaeth wedi'i addo iddynt.

Gig elusennol oedd e, yn cefnogi elusen chweched Glantaf sef Childline Cymru. Roedd pedwar band yn cymryd rhan, gan ddechrau â'r band ffync Johnny Inmate (sy'n cynnwys un o ddisgyblion Glantaf - DJ). Wrth i'r dorf gynhesu dyma'r dawnsio'n dechrau a'r 'moshpits' hefyd. Ymddiheuriadau am unrhyw ddifrod a achosir !

Wrth i'r noson fynd ymlaen a'r bandiau eraill gymryd rhan (The Bicycle Thieves a'r Original Millers) daeth at uchafbwynt y noson, roedd yn amser i'r Llama Invasion chwarae (2 aelod o'r ysgol).Mi roedd eu set yn cynnwys caneuon cyflym pyncaidd a chaneuon gwerin o Iwerddon fel "The Green Fields Of France". Un o oreuon eu set oedd dim byd llai na chân Tetris!!! (ie y gêm) Wnaeth y dorf joio hwnnw'n fawr. Erbyn y diwedd ro'dd bawb wedi blino o ddawnsio a moshio, ac roedd yn amser i ddychwelyd adref. Bu nifer o'r bobl a oedd yna yn datgan "Dyma'r gig gorau fi 'di gweld."

Trefnwyd y noson gan aelodau Llama Invasion, sef Siôn Dawson a Cerys Brokenshaw o Lantaf a Joel Dear o St Teilos. Roeddent i gyd yn cytuno ei fod yn "llawer mwy o waith na roeddent wedi meddwl, ond roedd e'n werth e yn y diwedd"

Diolch i Howard Attwood, rheolwr yr eglwys am ddarparu'r lle am ddim. Hefyd diolch i Bud am ddarparu amser ymarfer i'r holl fandiau yn Stiwdio Ieuenctid Howardian a chodwyd £320 tuag at Childline Cymru.

Siôn Dawson a
Cerys Brokenshaw Bl.12

**YSGOL GYFUN GYMRAEG GLANTAF**

**CYNORTHWYWYR DYSGU**

Dyddiad cychwyn: 1 Medi 2008.

Amodau'r swyddi: Cytnundeb am 1 flwyddyn;
oriau ysgol; 38 wythnos y flwyddyn.

**Graddfa cyflog: lefel 1-3 (yn unol â chymhwyster a phrofiad)**

Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn rhugl yn hanfodol ar gyfer y swyddi hyn.

Lleolir y swyddi yn yr Adran Cynnal Dysgu.
Y prif ddyletwyddau fydd darparu cefnogaeth ar gyfer plant ag anghenion addysgol ychwanegol ac anghenion personol.

Gellir cysylltu â Mrs Vanessa Priestley (Pennaeth yr Adran Cynnal Dysgu) er mwyn cael sgwrs anffurfiol a mwy o fanylion.

**Dylid cysylltu â Mrs Muriel Bevan (02920 838803) er mwyn gofyn am ffurflen gais.**

# CYHOEDDI GŴYL GERDD DINAS POWYS 2008

Bydd Gŵyl Gerdd Dinas Powys yn digwydd eleni o 21 hyd at 29 Mehefin, ac mae rhywbeth at ddant pawb - gan gynnwys band dribiwt Abba, cerddorfa siambr, band pres, côr meibion, jazz a cherddoriaeth gospel .

Côr Pendyrus fydd yn agor yr Ŵyl, côr a ddisgrifiwyd yn ddiweddar fel 'y sŵn gorau i mi glywed gan gôr meibion o Gymru ers blynyddoedd'.

Fe fydd enillwyr band pres Prydain Fawr sef Band y Cory yn ein diddanu ni ar nos Fercher yn ogystal â chynnal gweithdai i blant ysgol yn y prynhawn.

Ar y nos Wener fe fydd Cerddorfa Siambr Cymru yn ail-ymweld a'r ŵyl gyda gwledd o gerddoriaeth Eidalaidd.

Ac er mwyn ehangu apêl yr ŵyl i gynulleidfa newydd, fe fyddwn yn cynnal noson Abba gan un o'r bandiau tribiwt gwreiddiol, Abbamagic.

Phil Dando a'i fand fydd yn ein diddanu yn y cyngherdd jazz cinio Sul poblogaidd. Ac i gloi yr ŵyl fe fydd Côr Cymuned y pentref ei hun sef Côr Capel Bethesda yn cynnal cyngerdd.

Bydd cyngerdd am ddim i'r henoed ar brynhawn dydd Gwener.


Sefydlwyd yr Ŵyl yn 2000 i ddathlu'r mileniwm newydd ac er mwyn i bobl Dinas Powys a'r ardal glywed cerddoriaeth broffesiynol. Mae'r awyrgylch gyfeillgar, y gwin yn llifo a'r gerddoriaeth ysbrydoledig yn denu mwy a mwy o bobl bob blwyddyn.

Am ragor o wybodaeth ac i fwcio tocynnau ymwelwch â www.dpmusfest.com neu ffoniwch 02920513114

Dydd Sadwrn 21.06.08 19.30 - Côr Pendyrus, Neuadd y Plwyf £10.
Nos Fercher 25.06.08 19.30. Seindorf Y Cory. Neuadd y Plwyf £10
Nos Wener 26.06.08 1.30 Cyngherdd i'r Henoed. Am ddim
19.30 Cerddorfa Siambr Cymru Neuadd y Plwyf £10
Nos Sadwrn 28.06.08 19.30 ABBAMAGIC. Neuadd y Plwyf £10
Dydd Sul 1.30 Phil Dando ai' fand jazz Neuadd Lee (drws nesa i Neuadd y Plwyf) £6
20.00 Côr Cymuned Bethesda Neuadd y Plwyf £7.50

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Lowri Jones, 07732 372761.

# CROESAIR Rhif 84 gan Rhian Williams



**Atebion i: 22, Heol Cae Rhys, Rhiwbeina, Caerdydd. CF14 6AN i gyrraedd erbyn 20 Mai 2008.**

**Ar Draws**
1. Cŵd i ddal epaod cread bob yn ail (5)
7. Ara' Gruff byddi'n gadael ôl (7)
9. Casglwr coed tân yn cael cneuen o Loegr mewn cwyr toddedig (7)
10. Cyfnewidiaf rwydwaith Ruth ddigalon a'r haf heb ddechrau (7)
11. Dail anwel ar yn ail yn datgelu'r diafol (5)
12 Mae nwyd Osian yn peri iddo symud i'r gerddoriaeth (2,7)
16 Cryf dy lam i fuander (9)
21 Sarff yn dechrau newid ei isafbwynt drwy reddf (5)
22 Lle yn America i gefnu ar Bala a gradd uwch (7)
24 Niweidio doli o Ur druan (7)
25. Man i lafurio e.e. gwlith yn anweddu (7)
26 Ffug yw'r da yn Lloegr yn cofleidio y sâl yn gyntaf. (5)

**I Lawr**
1. Mae pice da yn dod mewn bwndelau bach (6)
2. 'Am gael ____ yn ei bryd
 Dyrchafwn foliant byw' (H.C.W) (8)
3. Yn agor clo a dymchwel deg tŷ oddeutu diwedd y Sul (6)
4 Broga yn neidio cyn pen dim i'r bondo (6)
5. 'Nid oes ____ nac ymadrodd, lle ni chlybuwyd eu lleferydd hwynt' (Salmau) (4)
6. A fu ffrio a llunio? (6)
8. Edrych - mae William yn llwyd (5)
13. Bai yn troi'r lle ar ei ben (3)
14. Amser i'r dyn mawr golli'i ben (3)
15. 'A'r suon hwyr ___ a glywer.
 A'r gwin heno'n bêr gan wenwyn barus' (R.W.P) (8)
16. Prepiwr Pwll Gwyngyll mewn pridd trwm (6)
17 'Nid adnabum chwi erioed: ewch ____ oddi wrthyf, chwi weithredwyr anwiredd (Mathew) (5)
18 Dadi druan yn codi lle i'r praidd (6)
19 Nid digidol ymylon awen Arwel oriog (6)
20. Yn wastad rhywbeth oer i de (6)
23. 'Creu gwir fel gwydr o ffwrnais __ (G.L) (4)

# Gwefannau Bwyta'n Iach

Hoffwn wahodd darllenwyr Y Dinesydd i gael golwg ar wefannau Cymraeg newydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd, sef www.salt.gov.uk/halen a www.eatwell.gov.uk

Mae gwefan *eatwell* yn ffynhonnell gynhwysfawr o wybodaeth a chyngor defnyddiol ar ystod o faterion yn ymwneud â bwyd - o fwyta'n iach i ddiogelwch a labeli bwyd. Mae adrannau penodol wedi'u teilwra at grwpiau oedran gwahanol.

Nod gwefan Halen yw codi ymwybyddiaeth am yr halen yn ein deiet. Mae bwyta gormod o halen yn gallu codi pwysedd gwaed ac arwain at glefyd y galon, felly mae'r Asiantaeth yn cynghori na ddylem fwyta mwy na 6 gram y dydd.

# Atebion Croesair Rhif 83

**Ar draws:** 1 Nid nepell. 6 Sicr. 8 Tarddle. 9 Delwedd. 10 Ceidwadwr. 14 Galw. 15 Nedd. 16 Nest. 17 Archwiliwr. 20 Adolwg. 22 Ni syfl. 23 Cnwd. 24 Gwrthdaro.
**I Lawr:** 2 Inof. 3 Naddu. 4 Presennol. 5 Llid. 6 Sylfaenu. 7 Caerwysg. 11 Dydd Gwener. 12 Caeredin. 13 Gwawdlyd. 18 Ased. 19 Ofer. 21 Gwg.
Derbyniwyd 12 ymgais a 10 yn hollol gywir. Danfonir y tocyn llyfr i Gwion Dafydd, Ystum Taf

# YSGOL COED Y GOF



**Plant Dosbarth 5D ger Tŷ Tredegar**

Llongyfarchiadau i ddisgyblion y Ganolfan Adnoddau Arbennig ar eu llwyddiant yng nghystadleuaeth lluniadu 3D yn Eisteddfod Genedlaethol Conwy 2008! Mae Mrs Beryl Williams wrth ei bodd gyda'r wobr gyntaf yn enwedig gan mai hon yw ei blwyddyn olaf yn yr ysgol. Da iawn wir!

Dechreuodd disgyblion y Ganolfan Adnoddau Arbennig dymor y gwanwyn yn briodol iawn trwy fynd i weld cwmni dawns 'Springs Dance Company yn theatr y 'Giat' (Gate) yn perfformio dawns greadigol 'Water Bugs & Dragonflies'. Mwynhaodd y disgyblion y perfformiad lliwgar, trawiadol yn enwedig pan gawsant wahoddiad i ymuno â'r dawnswyr ar y llwyfan ar ddiwedd y sioe.

Bu blwyddyn 4 hefyd yn synnu a rhyfeddu ar berfformiad gwych o ddawns o'r Hen Aifft gan gwmni 'Cairo', ymunodd y plant a Mrs Lloyd - Hughes yn eu perfformiad yn neuadd yr ysgol. Mae blynyddoedd 3 a 5 hefyd wedi bod yn mwynhau Hanes gyda gwibdeithiau i bentref Celtaidd Sain Ffagan a Thŷ Tredegar. Ond, er eu bod wedi mwynhau eu profiadau yn fawr maent wedi penderfynu bod eu bywydau nhw yn y presennol yn llawer mwy cysurus na phlant yn yr oesoedd a fu!

Bu Mrs DeSouza a deg o ddisgyblion blwyddyn 6 yn gorymdeithio gyda phlant ysgolion Cymraeg Caerdydd o Ganolfan y Mileniwm i gyhoeddi Eisteddfod yr Urdd Caerdydd 2009. Cawsant y fraint a'r anrhydedd o gwrdd â'r Arglwydd Elis Thomas, Hywel Gwynfryn, Dewi Pws a'r gŵr pwysig ei hun Mistar Urdd!

Mae gennym nifer o weithgareddau cyffrous a gwibdeithiau wedi'u trefnu ar gyfer yr wythnosau nesaf, yn cynnwys ymweliad blwyddyn 2 ag Ynys y Bari i astudio glan y môr. Hefyd mae un o gerddorion dawnus Cystadleuaeth Menuhin, Tianyang Gao disgybl 15 oed o Tseina, yn dod i'r ysgol.

# Ysgol y Berllan Deg

Mae'n braf gweld pawb yn ôl yn llawn brwdfrydedd ar ôl gwyliau'r Pasg. Rydym yn barod am dymor prysur arall llawn bwrlwm.

Aeth ugain o ddisgyblion o flwyddyn 5 a 6 i'r Bae i ddawnsio gwerin yn seremoni cyhoeddi Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2009. Da iawn chi am ddawnsio mor dda.

Tro blwyddyn 1 oedd hi i berfformio eu gwasanaethau dosbarth o flaen yr ysgol a'u rhieni. Cafwyd perfformiadau bywiog ac egnïol yn adrodd hanes Bili Broga. Llongyfarchiadau i bawb - daliwch ati.

Yn ddiweddar, tynnwyd lluniau o bob dosbarth gyda'u hathro. Roedd pawb yn wên o glust i glust!

Llongyfarchiadau mawr i aelodau staff sydd wedi dyweddïo'n ddiweddar. Miss Catrin Williams, Dosbarth Derbyn gyda Mr Darren Jones; ac yn ogystal Miss Ceri Grisdale Blwyddyn 6 gyda Mr Gethin Jones Blwyddyn 3. Dymuniadau gorau i bob un ohonoch i'r dyfodol.

# STIWARDIO

Mae Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn dod i Gaerdydd eleni ac angen gwirfoddolwyr lleol i gynorthwyo gyda Stiwardio yn ystod yr wythnos.

**Gallwch gynnig gwirfoddoli i wneud un neu fwy o sesiynau yn ystod yr wythnos rhwng 1af - 9fed Awst.**

Bydd sesiwn yn golygu shifft yn ystod un o'r cyfnodau isod:
8.30am - 13.00pm 12.30pm - 18.00pm 17.30pm - 22.00pm

**Cynigir tocyn mynediad i Faes yr Eisteddfod (gwerth £12) i bawb fydd yn gwirfoddoli fel stiward a hefyd pryd o fwyd i bob stiward sy'n gwasanaethu am ddwy sesiwn yn olynol.**

Am ffurflen cofrestru cysylltwch â Siwan yn Swyddfa'r Eisteddfod
siwan@eisteddfod.org.uk
neu 02920 763777





# 3 Bears Nursery



**Bwriad perchnogion newydd y feithrinfa hon yn Hen Laneirwg yw diwallu'r angen am ofal plant proffesiynol dwyieithog yn Nwyrain Caerdydd. Drwy gyflwyno mwy o Gymraeg i'r feithrinfa a hybu'r defnydd o Gymraeg a Saesneg fel bod y plant yn deall y ddwy iaith, gobeithir y bydd diwrnod eich plentyn yn y feithrinfa yn brofiad llawn hwyl a sbort mewn awyrgylch wirioneddol ddwyieithog.**

Amgylchedd gyfeillgar a diogel
Ennillwyr gwobrau am fyrbrydau iach ac am baratoi bwyd
Gardd enfawr
Staff â chymwysterau
Parcio diogel

Dydd Llun i ddydd Gwener 8am – 6pm
Clwb brecwast, ar ôl ysgol a gwyliau
i blant rhwng 3-8 mlwydd oed



Galwch Lowri ar 07790 000084 - 3 Bears Nursery & Pre-School Ltd, Ty Wern Fawr, Parc Busnes Dwyreiniol, Lon Wern Fawr, Hen Laneirwg, Caerdydd

# Ysgol Pencae



**Adran Addysg Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Aeth disgyblion 5 a 6 i lansio adran addysg newydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Cynhalion nhw ddadl am bwysigrwydd gofalu am yr amgylchedd wrth deithio'n bell ac agos. Pan roedden nhw'n trafod, roedd ffotograffau ohonyn nhw'n cael eu harddangos ar y sgrin fawr yn y neuadd drafod. Cyfarfyddon nhw hefyd gyda'r Arglwydd Dafydd Elis-Thomas, Llywydd y Cynulliad ynghyd â'r Prif-weinidog, Rhodri Morgan. Datgelwyd enw newydd yr adran addysg hefyd, sef Siambr Hywel. Braint ac anrhydedd oedd cael ein gwahodd i'r achlysur cofiadwy hwn.

**Gweithdy Affricanaidd**
Daeth aelodau o Goleg Cerdd a Drama i gynnal gweithdy Affricanaidd gyda disgyblion Blwyddyn 5 a 6. Cafon nhw'r cyfle i ddysgu am draddodiadau'r wlad gan ddawnsio a drymio i gerddoriaeth draddodiadol Affricanaidd.

**Arddangosfa Tutankhamun**
Teithiodd llond bws o ddisgyblion, rhieni ac athrawon i Lundain er mwyn ymweld ag arddangosfa Tutankhamun. Mae'r ymweliad hwn yn ddatblygiad o waith thema disgyblion Blwyddyn 6 ar yr Aifft. Roedd yn brofiad cofiadwy i gael gweld yr holl wrthrychau cywrain oedd wedi goroesi dros y canrifoedd.

**Berfa Sioe Flodau'r Gwanwyn yr RHS, Caerdydd**
Cymrodd ddisgyblion blwyddyn 3 ran yng nghystadleuaeth cynllunio berfa yn y sioe eleni. Roedd y ferfa'n werth ei gweld!

**Spellathon**
Casglodd disgyblion yr ysgol gyfanswm anrhydeddus o £2070 ar gyfer Mencap Cymru fel rhan o weithgareddau Spellathon. Dyma'r cyfanswm mwyaf trwy Gymru gyfan. Daeth Katie Hopkins ar ran Mencap Cymru, i dderbyn y siec yn ein gwasanaeth agored brynhawn Gwener. Diolch i bawb oedd wedi noddi'r disgyblion i ddysgu nifer fawr o eiriau Cymraeg a Saesneg.




# C.R.I.C.C.



Gŵyr y rhai sydd yn gyfarwydd â'r clwb fod CRICC yn ymweld â Brest bob yn ail flwyddyn. Eleni , dros benwythnos y Pasg, aeth carfan dan 12 draw i chwarae ac aros gyda theuluoedd eu gwrthwynebwyr. Er bod y ddwy daith ar y fferi yn golygu rhywfaint o ddioddef i nifer oherwydd y môr garw; a'r tywydd yn gawodydd o law a chesair, bu'n daith i'w chofio am fod yr aelodau ifainc a'r rhieni wedi mwynhau.

Enillwyd gêm yn erbyn tîm dan 13 Brest ac yna colli mewn gêm dda i dîm dan 13 yr Ardal, - canlyniadau a pherfformiadau y dylai'r chwaraewyr a`r hyfforddwyr ymfalchïo ynddynt. Gyda'r garfan yn y llun mae Rob Thomas [prif hyfforddwr a threfnydd y daith], Geraint Edwards [hyfforddwr] ac Angus Maclean [hyfforddwr].

Doctor yw Angus. Mae'n ddyfarnwr ac wedi bod yn dysgu Cymraeg am gyfnod cymharol fyr, ond ar y ffordd i fod yn rhugl. Nid hyfforddi rygbi yn unig yw nod CRICC ond annog y di-Gymraeg i ddysgu'r iaith. Os oes rhywun â phrofiad o addysgu Cymraeg fel ail iaith ac yn fodlon helpu rhoi gwersi i rieni ar fore Sul, cysylltwch â phwyllgor CRICC.

Hoffai pwyllgor CRICC ddiolch i Dan Langford [Cwmni Siocled Cymreig] am roi siocled yn rhad ac am ddim fel un o'r anrhegion a gyflwynwyd i chwaraewyr Brest.

**Sut bynnag yr ydych am ddelio â Chyngor Sir Caerdydd**

- dros y ffôn - trwy'r post - trwy e-bost - wyneb yn wyneb



**COFIWCH Y GELLWCH WNEUD HYNNY YN GYMRAEG!**

Gofynwch i C2C ar 02920 872088 neu'r Uned Gymraeg ar 02920 872527.

**Tŷ cyfforddus yn y Gorllewin**

**Cysgu 7. Gardd. Lle Parcio.**

**Agos at draethau Penbryn, Tresaith a Llangrannog.**

**Ffoniwch 029 2075 3154**




**TA-RA GETHIN**

Ar ôl cyflwyno *Blue Peter* am dros dair blynedd cyhoeddodd Gethin Jones ei fwriad i adael y rhaglen pan ddaw'r gyfres bresennol i ben yn ystod mis Mehefin. Yn ystod ei amser ar y rhaglen fe ddaeth yn gyflwynydd poblogaidd iawn. Er iddo ennill ei blwyf fel tipyn o *action man* wrth hedfan gyda'r *Red Arrows* a'r lleygwr cyntaf i gyflawni *yomp* 30 milltir gyda commandos y Marines fe chwaraeodd ffidil yn y Proms gyda Cherddorfa Philharmonic y BBC hefyd.

"Cefais brofiadau anhygoel" meddai, "Roedd yn fraint cael bod yn rhan o'r gyfres." Pob lwc iddo yn y dyfodol.

**ANRHYDEDDU'R HOGIA**

Bydd Guto Harri a Meic Povey yn derbyn Cymrodoriaeth er Anrhydedd gan Goleg y Brifysgol yn yr Haf. Anrhydeddir Guto am wasanaeth i newyddiaduraeth teledu a chaiff Meic ei anrhydeddu am ei wasanaeth clodwiw i'r ddrama yng Nghymru.

# CÔR CF1

Ddechrau'r mis, fe fu'r côr yn cadw cyngerdd ym Montarddulais. Arweinydd y noson oedd Gary Owen, ac fe gawsom noson hwyliog yn ei gwmni. Yr oedd y croeso a dderbyniasom gan y capel yn un penigamp! Diolch! Braf iawn oedd cael perfformio mewn ardal na fuom yn cyngherdda yno o'r blaen.

Llongyfarchiadau mawr i Eifiona Williams hefyd ar gwblhau Marathon Llundain, ac am godi swm sylweddol tuag at elusen Downs Heart group. Hoffem hefyd groesawu Sioned Wynne Jones yn ôl adref wedi iddi fod yn teithio!



Ym Mynwent Y Gorllewin yn Nhrelai mae bedd Walter Bartley Wilson, sylfaenydd Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd. Cuddiwyd y garreg gan fieri a glaswellt am flynyddoedd ond ym 1999 daeth criw ffilmio'r BBC o hyd iddi ac ychwanegwyd y geiriau *'Founder of Cardiff City AFC'* arni. Ewch yno i'w gweld.

**TA-RA BETHAN**

Llongyfarchiadau i'r actores, y ddawnswraig a'r berfformwraig adnabyddus Tara Bethan ar gyrraedd y deg olaf yng nghystadleuaeth deledu *I'll Do Anything*. Merch o Lansannan ydy Tara ond wedi ymgartrefu yng Nghaerdydd am gyfnod. Mae hi i'w gweld ar hyn o bryd ar y gyfres 'Caerdydd'. "Cefais brofiadau anhygoel ac od!" meddai ac fel canlyniad i'w ymddangosiad ar y teledu mae wedi derbyn nifer o gynigion ac mae'n debyg y bydd yn symud i Lundain yn fuan. Pob hwyl iddi.

**VALEWAYS**

Gyda'r haf o'r diwedd ar ein gwarthau mae golygon nifer ohonom yn troi tuag at yr awyr agored. Beth well felly na thaith gerdded hamddenol ym Mro Morgannwg? Elusen gofrestredig sy'n cydweithio â chynghorau a chymunedau lleol er mwyn ail agor hen lwybrau a chreu rhwydwaith o lwybrau cerdded difyr yn y fro ydy *Valeways*. Gallwch ymuno ag un o'r teithiau tywys neu ddilyn eich trywydd eich hun gan ddefnyddio taflenni lliwgar a gyhoeddwyd ganddynt. Mae *Valeways* wedi cyhoeddi taflenni Cymraeg ar gyfer pob un o'r teithiau. Felly os am fwynhau ysblander y Fro - Cwm y Ceirw (Taith 17), Castell, Llys a Ffynhonnau (Taith 7) neu Goetir, Parcdir ac Arfordir (Taith 4) yna cysylltwch â *Valeways*, Uned 7, Canolfan Mentrau Cymunedol Y Barri, Heol Skomer, Y Barri neu ffoniwch *Valeways* ar 01446 749000



**Llys Llansanwyr. (Taith Gerdded 7, Castell, Llys a Ffynhonnau)**

# PLANNU MWY O GOED AR STRYDOEDD CAERDYDD

Mae Gwasanaethau Parciau Cyngor Caerdydd wedi bod yn brysur yn amnewid coed a phlannu coed newydd ar strydoedd ledled Caerdydd yn barod ar gyfer y gwanwyn. Plannwyd dwy goeden newydd bron am bob coeden y bu'n rhaid ei thorri i lawr yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Mae Gwasanaethau Parciau yn archwilio a chynnal dros 12,000 o goed stryd yng Nghaerdydd bob tair blynedd gan ganolbwyntio ar draean o'r ddinas y flwyddyn - h.y. ardaloedd y gorllewin, gogledd a'r de.

Mae'r archwiliadau parhaus hyn yn galluogi Cyngor Caerdydd i wirio a chofnodi cyflwr y coed stryd unigol a threfnu i gynnal unrhyw waith dilynol sydd ei angen o fewn y rhaglen waith flynyddol gynhwysfawr, gan ddefnyddio gwasanaethau contractwyr coedyddiaeth arbenigol.

Eleni, canolbwyntiodd Gwasanaethau Parciau ar ardal de-ddwyrain y ddinas a bu'n rhaid iddynt dorri 176 o goed stryd i lawr oherwydd pydredd neu haint. Fodd bynnag, maent wedi plannu 286 o goed ar y strydoedd yn eu lle. Bydd y Gwasanaethau Parciau yn canolbwyntio ar ardal y Gorllewin y flwyddyn nesaf (2008/2009), a gallwn ddisgwyl gweld mwy o goed yno bryd hynny yn ogystal.

**Technoleg gwybodaeth i Gymru gyfan!**

offer cyfrifiadurol | meddalwedd | rhwydweithio | e-bost | gwefannau

CYNNIG ARBENNIG: Laptop Acer Extensa Sgrîn 15.4", cof 1GB, disg galed 80GB, DVDRW, Wi-Fi, Windows Vista, meddalwedd Office a gwrth feirws - bargen am £350 (RRP £425)

Ydych chi eisiau prynu cyfrifiadur ond ar goll efo'r holl gynigion a'r derminoleg?


Prynwch yn hyderus gan W&G - offer a meddalwedd yr ydym ni yn hapus i'w defnyddio a'u hargymell.

Mae Williams & Gwilym yn darparu offer cyfrifiadurol a chefnogaeth i unigolion a Chwmnïau dros Gymru gyfan.

Oes gennych chi gyfrifiadur efo problemau?

Cysylltwch â Dilwyn am gyngor neu gwôt:

t: 02921 252299
m: 07976 254446



WILLIAMS & GWILYM

# PASPORT

## *Llanc o'r Rhondda – Daniel Davies – sy'n cael ei holi'r mis yma...*



**O le wyt ti'n dod yn wreiddiol?**
Treherbert, Rhondda

**Ym mha ran o Gaerdydd wyt ti'n byw?**
Thornhill

**Ers faint wyt ti'n byw yng Nghaerdydd?**
Chwe blynedd

**Beth fuest ti'n ei wneud cyn [neu] ar ôl symud yma?**
Es i i'r coleg yn Aberystwyth yn 1998 a gwneud gradd mewn gwleidyddiaeth ryngwladol. Fe wnes i fwynhau fy nghyfnod yn y coleg - y bywyd cymdeithasol a'r cwrs.

Yn ystod fy ail flwyddyn fe es i weithio i Camp America yn yr Unol Dalaethiau. Roedd e'n brofiad gwych. Yn sgil hynny penderfynais ddilyn gyrfa fel athro felly arhosais yn Aber i wneud ymarfer dysgu cyn cael swydd yn Ysgol Gymraeg Ynyswen a symud i Gaerdydd. Ar ôl blwyddyn es i i ddysgu yn Ysgol Bro Allta, Ystrad Mynach ac ar hyn o bryd dwi wedi cael secondiad i fod yn athro pontio yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni.

Fe wnes i briodi ym mis Hydref y llynedd â Medi. Gwnaethon ni gwrdd yn y coleg, ac mae hi hefyd yn athrawes, sy'n grêt adeg gwyliau.

**Beth wyt ti'n hoffi ei wneud yn dy amser hamdden?**
Dwi wrth fy modd â chwaraeon, yn enwedig pêl droed a dwi'n chwarae rhyw dair gwaith yr wythnos. Ar ddydd Sadwrn fyddai'n chwarae i glwb pêl droed y Cymric (yr ail dîm, dwi ddim digon da i'r tîm cyntaf). O'n i'n arfer canu yng nghôr CF1, a chefais nifer o brofiadau da yn sgil hynny.

**Be sy'n gwneud i ti chwerthin?**
Ar hyn o bryd dwi'n hoff iawn o Gavin a Stacey, yn enwedig y comedïwr Rob Brydon. Mae'n braf gweld comedi wedi'i seilio yn y Barri yn cael cymaint o lwyddiant. Trueni ei fod wedi gorffen. Dwi hefyd yn chwerthin yn uchel ar Scott Mills (Radio 1) - weithiau dwi'n methu hyd oed gadael y car.

**Oes yna fannau yng Nghaerdydd wyt ti'n hoffi mynd iddynt? Pam?**
Dwi'n hoffi mynd mas i'r dre er mae tafarndai lle chi ddim yn gallu clywed y person drws nesa i chi yn troi arna i - felly fyddai'n tueddu i fynd i lefydd fel Copa a Demseys. Mae'r Bae yn dda os i chi'n mynd mas am fwyd a dwi'n joio'r *Waterguard* a'i gwrw amrywiol.

**Lle wyt ti'n hoffi mynd am wyliau?**
Rwy'n hoff iawn o fynd ar wyliau - ac mae swydd dysgu yn caniatáu i mi fanteisio mynd ar gymaint o wyliau a phosib. Dwi'n dwli ar yr Unol Daleithiau a Chalifornia yn enwedig - mae San Fransisco yn lle gwych - un o'r llefydd y byddem yn dwli dychwelyd yno rhyw ddydd. Fe wnaeth fy chwaer i briodi yn Awstria haf y llynedd ac roedd yn lle hardd dros ben. Ym mis Chwefror aeth criw ohonom i sgïo ym Mwlgaria - a dwi bendant wedi dal y 'bug' ac wrthi yn trefnu ein trip sgïo nesaf. Does dim yn well na deffro'n gynnar a sgïo drwy'r dydd.

**Beth ydi'r peth mwyaf unigryw am Gaerdydd? Pam?**
Dwi'n hoff o faint y ddinas, mae'n ddigon mawr i gael amrywiaeth ond dyw hi ddim yn anferth fel Llundain. Dwi hefyd yn hapus fy mod yn medru byw mewn dinas lle rwy'n medru cymdeithasu drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Lle wyt ti'n gweld dy hun mewn deng mlynedd?**
Mae'n anodd meddwl gymaint o flaen llaw ond fyddai siŵr o fod dal yn dysgu ac yn byw yng Nghaerdydd.

## Canolfan Mileniwm Cymru – yma i chi – defnyddiwch hi!

Mae'r Ganolfan yn cynnig ystod eang o ddigwyddiadau i'ch diddanu dros y misoedd nesaf.

Drwy gydol mis Mai, cewch wledd o gerddoriaeth am ddim yn sesiynau Dan y Pared, sef gigs dros awr ginio neu gyda'r nos yng nghyntedd y Ganolfan. Rhai o'r artistiaid fydd: Howl Griff yn lansio'i albym newydd - 9 Mai; Bethan Nia, enillydd Celtic Connections eleni - 23 Mai; Brigyn yn lansio albym newydd, Brigyn 3 - 24 Mai a Lowri Evans, ddaeth yn 2il yn Cân i Gymru eleni - 31 Mai.

Bydd chwerthin iach yn diasbedain drwy'r Bae pan fydd cwmni DAMAGE yn cyflwyno *Gethin Thomas a Daniel Glyn* nos Sul, Gorffennaf 27.

Cyn hynny, Gorffennaf 22, bydd sêr y dyfodol o **Ffwrnais Awen**, cwmni drama Cymraeg Caerdydd yn perfformio *Annie.*

Bydd bwrlwm yr Eisteddfod Genedlaethol i'w deimlo yn y Ganolfan drwy gydol yr wythnos, a pherfformiadau gan Academi, Diversions, Ty Cerdd, yr Urdd ac artistiaid *Dan y Pared* ar y maes ei hun bob dydd.

Nos Wener a Sadwrn olaf y 'Sdeddfod, daw cwmni drama **Protest Fudur** yma, bydd perfformiadau dyddiol yng nghyntedd y Ganolfan ac amryw o ddigwyddiadau eraill i'ch diddanu os y dewch lawr i'r bae am hoe fach o'r maes. Heb anghofio wrth gwrs, y bydd **Aled Jones** yma fel Caractacus Potts, sef y brif ran yn **Chitty Chitty Bang Bang** drwy'r wythnos, yn wir drwy'r haf, o 3 Gorffennaf hyd 30 Awst.

Anodd credu fod **Glanaethwy** wedi bod yn meithrin talentau Cymry ifanc ers deunaw mlynedd bellach, ac mae cyfle i ddathlu gyda hwy mewn cyngerdd arbennig, 29 Tachwedd.

Bob p'nawn Mercher, rhwng 12 ac 1 o'r gloch, fyny grisiau yn Bar One, mae **Coffi a Chlonc** – cyfle i ddysgwyr ymarfer eu Cymraeg mewn awyrgylch braf ac anffurfiol - croeso i bawb, a bydd rownd gynderfynol cystadleuaeth Dysgwr y Flwyddyn i Gilby's yn y Bae, yr hen Brazz, ddechrau Mai.

Ewch i www.yganolfan.org.uk i gael manylion llawn am weithgareddau eich Canolfan chi. Wela ni chi yna!



**Aled Jones gyda'r dosbarth Cymraeg**

# Joust!
# Castell Caerdydd

Dydd Sadwrn 21 - dydd Sul 22 Mehefin, 10.30am – 5.30pm
Rhagolwg Arbennig ddydd Gwener 20 Mehefin 4.30pm – 7.30pm

Bydd Marchogion Brenhinol Lloegr yn carlamu i mewn i'r ddinas i frwydro yn erbyn gwrthwynebwyr lleol mewn sgarmes ganoloesol – arddangosfa anhygoel o farchogaeth, sgil a gwroldeb!

Dewch i weld sioe ragorol - o drywanu'r cylchoedd, taro'r cwinten a chodi gwrthrychau ar gyflymdra anhygoel i'r prif dwrnament a gwrthdaro'r rownd derfynol. Dewch i floeddio dros eich hoff farchog wrth i'r gwrthwynebwyr fygwth a dychryn ei gilydd cyn gwrthdaro'n galed. Cewch weld codymau dramatig a champau ar gefn ceffylau. Un enillydd yn unig fydd, un marchog buddugoliaethus, yn yr antur ganoloesol wefreiddiol hon.

O gwmpas y brif arena, a rhwng y prif ddigwyddiadau, cynhelir ysgol gleddyfa (nifer cyfyngedig) ac arddangosfeydd ymladd gan gleddyfwyr proffesiynol. Bydd cyfle hefyd i blant ymarfer eu sgiliau ymladd drwy gasglu cylchoedd ar geffylau pren ac, i ddigrifweision ifanc, gweithdy jyglo. Bydd Gwarchodlu Castell Caerdydd yn sefydlu ei wersyll yma hefyd.

Argymhellir archebu'n gynnar ar gyfer y digwyddiad hwn rhag cael eich siomi.
Ffoniwch: 029 2087 8100
Tocynnau: Oedolion £14.00; Plant £10.00 Disgownt archebu'n gynnar Oedolion £12.50; Plant £8.50
Rhaid archebu'r tocynnau erbyn dydd Iau 19 Mehefin.

Sylwer nad yw'r pris yn cynnwys taith dywys o amgylch y castell. Gellir prynu tocynnau am y teithiau tywys am £2.50 ychwanegol i oedolion a £1.50 i blant.



# Ysgol Iolo Morganwg

**"Hwyl iddynt oll wrth lwyddo"**

Cafwyd diwrnod i'r brenin yn ddiweddar gyda Caryl Parry-Jones , Bardd y Plant 2008. Yn dilyn sesiynau odli, chwarae â geiriau a chyflenrennu, lluniwyd amrywiaeth o gwpledi, benillion difyr a barddoniaeth llawn hwyl. Buodd Caryl wrthi am ddiwrnod cyfan gyda phlant o bob dosbarth. Dyma flas o'r hyn a chrëwyd gan blant Blwyddyn tri a phedwar yn ystod y bore.

**Ysgol Iolo**

Ar fwrdd y llong lawen
Mae'r capten a'r criw
Yn hwylio'n hapus
Ar fôr o wybodaeth
Ac wrth i'r gorwel gwych agosáu
Mae ein hyfory yn hyfryd
A llyw atgofion
Yn ein tywys drwy'r tonnau tawel
I'r harbwr hapus.

Cafodd plant Blwyddyn Un y cyfle i ymarfer a pherfformio eu doniau dawns a gymnasteg wrth recordio cyfres o raglenni ar gyfer DVD newydd "Cadw'n Heini". Mae'r gyfres yn dilyn gweithgareddau ymarfer corff dan arweiniad Karen Elli ac yn cael ei lawnsio yn ystod Eisteddfod Conwy diwedd Mis Mai. Cyfle gwych i blant bach ddilyn cyfarwyddiadau ac ymarfer corff ar yr un pryd.

Mae disgyblion Blwyddyn Pedwar a Phump wedi bod yn brysur dros ben yn paratoi ar gyfer y Cwis Llyfrau eleni. Wrth drafod cynnwys y llyfrau yn drwyadl a pharatoi ar gyfer cyflwyniad dramatig mae'r disgyblion wedi dwli ysgrifennu sgriptiau, actio, dawnsio a chanu. Llond llu o brofiadau gwerthfawr dan yr ymbarél o "ddarllen". Diolch o galon i'r athrawon a'r rhieni sydd wedi bod wrthi'n hyfforddi'r plant. Pob lwc i chi yn Aber!

**Hysbysebwch yn**
**y dinesydd**
**Cylchrediad eang yn y ddinas a'r cylch ac ar y we**
**www.dinesydd.com**
**Ffôn: 029 20565658**



# Merched y Wawr Bro Radur

Un o nosweithiau mwya difyr ein rhaglen bob blwyddyn yw Noson Brethyn Cartref, pan gawn glywed hanes dwy o'n haelodau, ynghyd â'r dylanwadau a fu arnynt.

Tro Gwen Holt a Myfanwy Jarman oedd hi eleni ac roedd hi'n bleser gwrando arnynt yn hel atgofion. Bu Gwen yn sôn am Mrs. Blodwen Ellis o Ddolgellau ac yn canmol ei dawn fel cantores, ei diwydrwydd a chadernid ei chymeriad. Nid tan ddiwedd y sgwrs datgelodd Gwen taw ei mam oedd Blodwen Ellis.

Roedd Myfanwy yn fyrlymus wrth ddisgrifio ei phlentyndod yn Llangefni, yr ifanca o 14 o blant. Roedd gan y teulu yma gôr S.A.T.B.! Mae ganddi gof plentyn o liwiau llachar - piws y rhododendron ger yr eglwys, aur y Cennin Pedr mewn cae a chotiau coch yr helwyr.

Bu'n weithgar gyda Theatr Fach Llangefni a daeth i nabod enwogion Cymru drwy ei gwaith yn helpu trefnu gwyliau drama a cherddoriaeth ym Môn. Gallem fod wedi gwrando arni yn sôn amdanynt am oriau, tasai amser yn caniatáu.

Ni fyddwn yn mynd am dro ar Fai 7 wedi'r cyfan. Yn lle hynny, bydd tair o'r merched yn dod â rhywbeth y maen nhw'n ei drysori ac yn sôn amdano yn ystod y cyfarfod yn neuadd Capel y Methodistiaid, Radur.

Bu farw Fred Keenor ym 1972 ac fe'i claddwyd ym Mynwent y Ddraenen. Yn ôl y llyfr *'Discovering Welsh Graves'* mae ei fedd bron yn amhosib i'w weld.

# AELWYD Y WAUN DDYFAL

Bu tymor y gwanwyn yn un prysur iawn i griw Aelwyd y Waun Ddyfal wrth gynnal cyngherddau ar hyd a lled Caerdydd a cheisio cael popeth yn barod ar gyfer Eisteddfod Sir yr Urdd. Cychwynnodd y tymor gyda noson Garioci hwylus iawn yn nhafarn y Koko Gorillaz (y Social gynt) yn y Waun Ddyfal. Cafwyd nifer o berfformiadau amrywiol gan y criw ac ambell un yn synnu'r dorf a'u sgiliau Cariociaidd! Ifan Rees ddaeth i'r brig gyda'r gân Johnny. B. Goode. Llongyfarchiadau mawr iddo!!!

Un o uchafbwyntiau'r flwyddyn i'r Aelwyd ydi cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd a bu pawb wrthi'n brysur yn ystod mis Chwefror a dechrau Mawrth yn ymarfer ac ymarfer ac ymarfer! Cafwyd llwyddiant arbennig yn yr Eisteddfod Sir er gwaetha'r ffaith fod nifer o'r aelodau wedi bod yn Iwerddon dros y penwythnos yn cefnogi Cymru ym mhencampwriaeth y Chwe Gwlad. Daeth nifer o unigolion i'r brig yn ogystal â'r ensemble lleisiol, y pedwarawd cerdd dant, y parti cerdd dant, y côr bechgyn, y ddau gôr cymysg, stepio i ddau neu fwy a'r grŵp dawnsio gwerin. Daeth y côr merched yn ail a byddent hwythau yn mynd ymlaen i gystadlu yn Sir Conwy hefyd. Bydd yr Aelwyd yn cael ei chynrychioli ar 16 o gystadlaethau i gyd - pob lwc i bawb!

Cynhaliwyd nifer o gyngherddau i gymdeithasau o amgylch Caerdydd a chyngherddau hefyd i godi arian at achosion da. Mae calendr yr Aelwyd yn prysur lenwi ar gyfer y flwyddyn nesaf gyda nifer o brosiectau cyffrous ar y gweill!

Bydd yr Aelwyd hefyd yn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd ar y cystadlaethau canlynol: Côr Ieuenctid, Parti Cerdd Dant dan 25 oed a'r Ddawns Werin dan 25 oed. Mae croeso i unrhyw un sydd am ymuno yn yr hwyl gysylltu â ni ar yr_aelwyd@hotmail.co.uk neu am fwy o wybodaeth, ewch i'n gwefan: www.waunddyfal.co.uk

# Llanw Llyn

Mae Papur Bro Llanw Llyn yn awyddus i gael cyfraniadau gan bobl o'r ardal, hen ac ifanc sydd yn byw yma. Maent wedi gofyn imi fod yn gyfrifol am golofn, bob rhyw dri mis - dibynnu ar y galw!!

Awgrymais iddynt y basa cyfraniadau gan bobl o Benllyn yn llawer gwell na fi\'n mwydro ym mhob colofn!! Dwi'n barod iawn i fod yn gyswllt ac i wneud yn siwr bod ganddom ni gyfranwyr bob mis. Bydd Llanw Llyn yn golygu popeth.

Beth am gysylltu'n fuan - fy rhif symudol yw: 07763213850.

Diolch yn fawr! Eirlys Eckley

## Cyngerdd Côr Godre'r Garth

Roedd Eglwys Dewi Sant dan ei sang yn ddiweddar i wrando ar gyngerdd gan Gôr Godre'r Garth a Chôr Liedertafel Moosburg o Bafaria sy wedi ei efeillio âi gilydd. Yn ystod y rhan gyntaf cafwyd datganiadau gan y corau ac unawdau gan dri o bobl ifanc talentog sef Wyn Davies, Catrin Aur Davies ac Iwan Wyn Parry. Yn yr ail ran perfformiwyd Yr Offeren yn G gan Franz Schubert. Arweiniwyd y gwaith gan Eilir Owen Griffiths a chyfeiliwyd yn ystod y cyngerdd gan Jeffrey Howard a Branwen Evans.

## Nia Williams sy'n gofyn!!

Ffafr sy gen i i ofyn – tybed oes modd dymuno'n dda i Hannah Roberts, y Tyllgoed, - gan iddi dorri ei choes ar ddiwrnod mas gyda ffrindiau yng Nghaerfyrddin 'n ôl ym mis bach. Mae'n gwella'n dda ac mewn hwyliau gwych – ac fe ysgrifennodd y gerdd yma sy'n adrodd yr hanes ac yn diolch o waelod calon i staff ysbyty Glangwili.

# Marathon



Llongyfarchiadau i Mrs Lisa Taylor, Ysgol Sant Curig, a redodd Marathon Llundain mewn amser gwych o 5 awr 7munud a 20eiliad. Roedd Mrs Taylor sydd yn riant yn yr ysgol yn rhedeg i godi arian i brynu offer chwaraeon i'r ysgol. Mae pawb sydd yn gysylltiedig gyda'r ysgol yn ddiolchgar iawn iddi.

## Costa del Glangwili

Wel, w i yma yng Nglangwili
Yn ffaelu cered cam,
'Y mola i'n llawn pigiade
A'n hen go's dde i lan –
Tair o wragedd yn eu '90s'
A'r dair yn ishte fanna,
Mae e'n terrific *moral boost*
Achos <u>fi</u> yw yr <u>ifanca</u>!!
Os y'ch chi'n trefnu damwain
Fel cered miwn i bolyn
Cofiwch ei fod e'n digwydd
Rhywle yn Sir Ga'rfyrddin.
Landwch yng Nglangwili
Pan bo chi ar yr hyd
Yng nghanol sŵn yr iaith Gymra'g -
Ysbyty gore'r byd.
Fe ddetho i 'ma wthnos dwetha
Yn teimlo'n ddigon tila,
Ond ma' clywed – 'Shwd wyt ti heddy?' o'ch cylch
Sdim dowt yn help i wella.
O'r 'Cleaners' i'r 'Consultants'
Ni allaf ffindo bai,
Ond eto clywaf gwyno
'Sdim posib plesio rhai.
O'n i'n casau 'injections'
Ddim yn gallu godde'r lo's,
Fan hyn – w i fel 'pincushion'
Ca'l y'n 'stabo' o fore tan nos.
Ma' dyn du yn dod â bwyd i ni
Bob dydd – y fe a'i drŵp
A'r cwestiwn cynta ddaw o'i geg
Yw – 'Would you like cawl soup?'
Brodor o dde'r India
A'i iaith yw Malielam
Ei 'ddiolch' e yw 'Nani' -
Daeth yma gyda'i fam.
Nyrs arall sy'n didoli'r pils
Iaith honno yw Swahili –
'Na lwcus nawr ond ife
Ma'n odli 'da Glangwili.
W i'n trafaelu ar y Zimmer
Ambell gam a hop
Cymeryd o's i fynd i'r 'loo'
A'r 'speed'? Dead slow a stop.
Daeth criw o ffrindie yma ddo'
A rhagor eto i ddilyn
'Pwy yw'r rhain?' medd Sister Ruth
'Merched y Wawr Caerfyrddin?'
Criw arall heddy eto
Yn dod wrth 'daro'r cloc'
'Wy'n gwbod pwy yw'r rhain' – medd hi
'Y W.I. en bloc'.
Os y'ch chi yma ar nos Sul
Ma' 'Dechre Canu'n' llanw'r lle
Ac yna sŵn 'Y Teulu'
Ma' hi jest fel bod tsha thre.
Pan ddigwyddws y ddamwain
Tua ¼ wedi 3
O'dd yr *XMGs yn wyrthiol
Fel caer o'nghwmpas i –
Ma' Rhun ac Elfrys fel dwy whâr
Ac yng nghanol yr holl 'scene'
Gofynnwyd 'Who's her next of kin?'
'Put me down' - medde Rhun.
Ma'n ffrindie i'n FFANTASTIG
Ma' pawb 'di bod mor wych
Ma'n hala fi dan deimlad
Anodd cadw llygaid sych.
W i'n mynd at Delyth ar ôl hyn
Whâr arall o 'New Inn'
Mae'n syndod ei bod hi'n 'y nghym'ryd i
A finne'n y cyflwr hyn.

Ie, dyma fi'n Nglangwili
'I can't sit up and beg'
Ond y cyfarchion i actorion yw
'Lwc dda' and 'Break a leg'!!

Hannah Roberts

*XMGs – cyn staff ysgol Melin Gruffydd

# YSGOL PLASMAWR



**Taith Sgïo i Ganada**
Ar yr wythfed o Chwefror fe es i gyda phumdeg saith o ddisgyblion a chwech o athrawon draw i Ganada ar daith sgïo. Roedd y gwesty yng Nghanada o safon uchel ac roedd y bwyd yn flasus ac yn wahanol i'r bwyd draw ym Mhrydain. Am y pum diwrnod nesaf fe fuom ni yn sgïo am bedair awr pob dydd yn Stoneham a Mont Saint Anne. Roedd y tywydd yn boeth yr holl amser ac roedd yr eira yn wych ar gyfer sgïo. Yn ogystal â sgïo yn ystod y dydd fe wnaethom ni sgïo yn ystod y nos ddwywaith hefyd. Roedd y teimlad yn annisgrifiadwy ac roedd yr olygfa o'r mynyddoedd yn ystod y dydd yn anhygoel. Ond nid dim ond sgïo wnaethon ni ar y trip yma, fe aethom ni i ymweld â dwy ganolfan siopa fawr (un yn Quebec ac un yn Toronto), fe aethom ni i Valcartier, sef parc gyda llethrau lle'r oedd modd mynd i lawr ar gylch rwber yn gyflym iawn. Hefyd aethom ni i weld gêm hoci îa gyda thîm y Quebec Remparts yn erbyn Halifax Mooseheads. Profiad bythgofiadwy! Fy hoff ran o'r daith oedd y sgïo nos oherwydd ei fod yn gyfle gwych ac roedd yr eira yn drwchus ac yn berffaith. Mwynheais y daith yn fawr.

Joseff Edwards, bl 9

**Cystadleuaeth Plas Ffactor '08**
Unwaith eto eleni cynhaliwyd cystadleuaeth y Plas Ffactor er mwyn codi arian i roi addysg i ddau blentyn mae'r ysgol wedi eu mabwysiadu. Mae Clera Mushipi yn byw yn Zambia a Mohammed Ali ym Mhacistan. Eleni bu dosbarth Daearyddiaeth 81b yn gyfrifol am drefnu yr adloniant.

Ar ddiwrnod cyntaf y Plas Ffactor roedd pawb yn nerfus ac yn awyddus i gychwyn. Daeth llu o ddisgyblion i weld yr athrawon yn gwneud ffyliaid o'u hunain! Roedd llawer o chwerthin a chwifio dwylo ac roedd yr awyrgylch yn gyffrous. Mr Evans oedd yn fuddugol. Casglwyd llawer o arian ond roedd mwy i ddod! Erbyn yr ail ddiwrnod roedd yn amlwg bod y perfformwyr yn llawer mwy hyderus wrth berfformio. Roedd mwy o bobl yn y gynulleidfa ac roedd yr awyrgylch yn ddifyr. Y tro hwn Mr a Mrs Jones drama oedd yn fuddugol yn canu cân o 'Grease'. Eto ar y trydydd diwrnod daeth llawer iawn o bobl i weld y sioe a chawson nhw ddim eu siomi! Uchafbwynt y sesiwn oedd perfformiad 'Y Coridorau' o gan enwog Queen, 'Don't stop me now'. Aeth pawb yn wyllt wrth weld Mr Hayes a'r criw yn ymdrechu i ganu a dawnsio! Erbyn Dydd Iau roedd y neuadd yn orlawn a phawb yn ysu i weld y perfformiadau erbyn hyn. Roedd llwyddiant a difyrrwch y tri diwrnod cynt wedi lledu o amgylch yr ysgol! Enillwyr y diwrnod oedd 'Spice Girls Plasmawr' ac roedd pawb yn hoffi gwisg baner Cymru Miss Daniel (yn dwyn i gof gwisg *Union Jack* Geri Halliwell!)

Yng nghanol yr Eisteddfod Ysgol cynhaliwyd rownd derfynol y Plas Ffactor ac fe berfformiodd y pedwar enillydd yn wych. Y Spice Girls ddaeth i'r brig ac roedd pawb yn y gynulleidfa wrth eu boddau â'r canlyniad. Diolch i bawb a gytunodd i berfformio ac i'r disgyblion a gefnogodd drwy'r wythnos

Rhys Kelly, Bl 8

**Taith i Sorrento, De'r Eidal**
Roedd y daith i'r Eidal yn ystod y gwyliau Pasg yn un hwylus a diddorol iawn gan ein bod wedi cael cyfle i ymweld â nifer o lefydd enwog. Yn gyntaf aethom draw i Abaty Montecassino a gafodd ei bomio yn ystod yr Ail Ryfel Byd, ac yna Palas Caserta, adeilad hyfryd a gafodd ei adeiladu yn y deunawfed ganrif. Cawsom gyfle i gerdded fyny Llosgfynydd Vesuvius a oedd yn brofiad arbennig ac yna gwelsom effaith ffrwydrad y llosgfynydd yma ar ddinas Pompeii yn y prynhawn. Ar ein diwrnod olaf aethom i Ynys Capri lle'r oedd cannoedd o blanhigion gwahanol a siopau enwog. Roedden ni'n ffodus iawn gan fod gennym arweinwyr ar bob taith a oedd yn adrodd hanes yr atyniadau. Mwynheais y daith yma i Sorrento. Roeddwn wrth fy modd yn cael hufen iâ bob dydd a pizza arbennig ar y noson olaf!

Gareth Jones, bl 9

**Ffilm lwyddiannus!**
Mae ffilm criw bach o ddisgyblion yma ym Mhlasmawr, 'The Stute', wedi ei enwebu i gael gwobr Bafta Cymru. Enillodd y ffilm yma wobr yng Nghystadleuaeth Ffilmiau First Light 2008 mis diwethaf a chawsant gyfle yno i gyfarfod â'r actor enwog, Kevin Spacey. Ffilm sy'n seiliedig ar atgofion un o fynychwyr Sefydliad Glowyr Oakdale yw 'The Stute' ac fe'i cynhyrchwyd gan y cwmni animeiddio Cinetig yma yng Nghaerdydd. Pob lwc i chi!



**Dyma fi gyda Molly Mac Gregor a Tegan Aspden ym Mhalas Caserta**



**Disgyblion yn derbyn y wobr gan Kevin Spacey**

**Ysgoloriaethau**
Llongyfarchiadau i Eleri Jones am gael cynnig ysgoloriaeth i astudio Y Gymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd, i Ioan Evans ac Emyr John am dderbyn ysgoloriaeth drwy Am Nawdd, cynllun i hyrwyddo astudio materion amgylcheddol drwy gyfrwng Y Gymraeg. Bydd Ioan yn astudio ym Mhrifysgol Abertawe ac Emyr yn Aberystwyth.

**Eisteddfod yr Urdd**
Buddugwyr yn yr Eisteddfod Sir eleni oedd: Holly Nefydd: Llefaru Unigol Bl7-9 ac Unawd Piano 7-9. Enlli Parry: Dawns Werin Unigol i Ferched Bl 9 ac iau. Steffan Lloyd-Evans: Unawd Sioe Gerdd 10-13. Elis Williams: Unawd Chwythbrennau 10-13. Grŵp Betsan: Grŵp Dawnsio Disgo 12-15.

# Mam leol yn troi'n wyrdd

Daeth Rhian Green, mam o Gaerdydd, yn ymwybodol o faterion amgylcheddol a chewynnau papur pan gafodd blant ei hunan. Meddai Rhian "Mae biti hanner miliwn o gewynnau papur yn cael eu twli bant yng Nghymru bob dydd! Ma' nhwn ishte yn ein safleoedd tirlenwi ac ni fyddent wedi pwdru yn fy oes i, nac hyd yn oed yn oes fy ngor-- or wyrion. Roeddwn yn gwybod fod angen gwneud rhywbeth am yr holl beth ac felly penderfynais sefydlu Mamigreen".

Mae Mamigreen yn cynnig gwasanaeth gwahanol i'r arferol;

- Daw Mamigreen i ymweld â chi ar amser ac i leoliad sy'n gyfleus i chi.
- Mae Mamigreen yn stocio dewis gwych o gewynnau modern a chyfleus mewn amrywiaeth eang o liwiau a defnyddiau.
- Os na allech chi benderfynu o'r dewis eang, yna gall Mamigreen hyd yn oed gynnig gwasanaeth 'profi cyn prynu' i chi.
- Mae Mamigreen yn cynnig gwasanaeth cynghori dros y ffôn (029) 20 842038.
- Mae Mamigreen yn ateb unrhyw ymholiadau yn brydlon drwy e-bost post@mamigreen.co.uk.
- Mae'r holl wybodaeth i'w gael yn ddwyieithog.
- Mae Mamigreen hefyd yn cynnig taclau ymolchi babi, rhai organig a naturiol, yn ogystal â deunyddiau tafladwy sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd.

Mae'r neges yn glir. Mae manteision amlwg drwy ddarparu rhieni gyda chanllawiau syml i'w dilyn wrth ddefnyddio cewynnau clwt – mae'r amgylchedd yn elwa drwy leihau nwyon tŷ gwydr a lleihau gwastraff tŷ sy'n llenwi'r safleoedd tirlenwi.

Pam ddim ymweld â www.mamigreen.co.uk neu cysylltwch â Rhian ar 02920 842 038 neu post@mamigreen.co.uk

Yn dilyn llwyddiant Caerdydd i gyrraedd y Ffeinal bu cryn ddiddordeb mewn creiriau o'r cyfnod. Tynnwyd ein sylw at y ffaith fod medal enillwyr y gwpan a dderbyniodd Fred Keenor wedi mynd ar goll. Roedd yna si ei fod wedi ei gwerthu ond fod aelod o'r teulu wedi ei phrynu yn ôl ond does neb o'r teulu yn gwybod am ei thynged. Dywedodd ei ferch Heather Jones nad oedd ganddi unrhyw syniad beth ddigwyddodd i'r fedal.

# Ymweliad Grahame Davies ag Ysgolion Cymraeg yr Andes



Roedden ni'n falch iawn o gael cwmni'r bardd ac awdur adnabyddus Grahame Davies yma yn Ysgolion Cymraeg yr Andes yn ddiweddar. Gwnaeth Dr Davies, sydd yn Ddarlithydd Cysylltiol gyda Phrifysgol Caerdydd yn ogystal â'i waith beunyddiol gyda'r BBC yng Nghymru, gytuno'n hynod o garedig i gynnal dwy sesiwn i'n dysgwyr yn ystod ei ymweliad â'r ardal, un sesiwn yn Esquel ac un yn Nhrevelin.

Yn y ddwy sesiwn cafwyd darlleniad o'i waith, cyfle i'r gynulleidfa holi cwestiynau ac wedyn trafodaeth anffurfiol. Roedd y sesiynau yn y Gymraeg, gyda chyfieithu ar y pryd i Castillano (Sbaeneg Patagonia) ar gyfer y rhai sy ddim yn rhugl eu Cymraeg eto. Bydd y dosbarthiadau uwch yn parhau i astudio cerddi Grahame yn ystod yr wythnosau nesaf.

Cafwyd amser arbennig yn ei gwmni, a gobeithio cawn ei weld eto yn y dyfodol agos.

Gill Stephen, Tiwtor,
Ysgol Gymraeg yr Andes, Esquel.

02920 611222
www.thai-lounge.co.uk

LOLFA THAI

lolfa thai lounge

**CROESO MAWR I DŶ BWYTA THAI NEWYDD GOGLEDD CAERDYDD**

DEWCH I FLASU BWYD THAI TRADODIADOL MEWN AWYRGYLCH MODERN A CHYFORDDUS

73B STRYD MERTHYR , EGLWYS NEWYDD, CAERDYDD
(UWCHBEN BWYTY PIZZERIA VILLAGIO)

**AMSERAU AGOR** (* archeb olaf)
SWPER : LLUN - SADWRN 6.30y.h - 10.45y.h *
CINIO :
MAWRTH - SADWRN 12.00y.p - 2.00 y.p (£9.95 AM 2 GWRS)

**FFONIWCH 02920 611222**
**NEU EWCH I'R WEFAN www.thai-lounge.co.uk**

# Calendr y Dinesydd

**Mercher, 7 Mai**
Merched y Wawr, Cangen Bro Radur. Noson yng nghwmni Carys Puw Williams, Carys Tudor Williams a Val Scott. Yn festri Capel y Methodistiaid Saesneg, Windsor Road, Radur, am 7.30pm.

**Iau, 8 Mai**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd. Oedfa Wythnos Cymorth Cristnogol dan arweiniad y Parch. Glyn Tudwal Jones yng Nghapel y Crwys am 7.30pm.

**Iau-Gwener, 8-9 Mai**
Rhosys Cochion yn cyflwyno 'Trafaelu ar y Trên Glas' gan Sharon Morgan yng Nghanolfan Gelfyddydau Chapter, Caerdydd, am 8.00pm. Tocynnau: 029-2030-4400.

**Gwener, 9 Mai**
Cylch Cadwgan. Y Prifeirdd Aled Gwyn a T. James Jones yn siarad ar y testun 'Llwybrau Nest' yn Neuadd yr Eglwys, Creigiau am 8.00pm. Cydnabyddir cefnogaeth yr Academi Gymreig.

**Gwener, 9 Mai**
Cyngerdd yng nghwmni Côr Poliffonig Caerdydd ac Elinor Bennett yn Eglwys Ebeneser, Heol Siarl, Caerdydd, er budd Gofal Canser Cymru.Yn ystod ail hanner y cyngerdd bydd y côr yn perfformio Requiem Faure.

**Sadwrn, 10 Mai**
Cerddoriaeth a bywyd Paul Robeson - The Search for Ol' Man River. Arwel Huw Morgan — Ingrid Surgenor yn Eglwys St German's Caerdydd am 7.30 pm. Tocyn £10 - gan Siop y Felin er budd Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd Pwyllgor Llysfaen a Thornhill

**Sadwrn, 17 Mai**
Bore coffi i ddysgwyr yn yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Rhymney St, Cathays, rhwng 10.30 a 12.00. Sgwrs gan John Emyr am 11.00. Croeso cynnes i bobl nad ydynt yn aelodau o'r Eglwys.

**Llun, 19 Mai**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Cyngerdd Côr Aelwyd y Waun Ddyfal, yng nghapel Bethel am 7.30pm. Tâl mynediad £5.

**Llun, 19 Mai**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd. 'Y fraich ddrewllyd a chlefydau anghyffredin eraill' gan Meirion Llewelyn (Ysbyty Brenhinol Gwent). Yn Ystafell G77 ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30pm. Croeso i bobl nad ydynt yn 'arbenigwyr' gwyddonol.

**Mawrth-Gwener, 20-23 Mai**
Theatr Genedlaethol Cymru yn cyflwyno 'Siwan' gan Saunders Lewis yn Theatr Sherman am 7.30pm. Tocynnau: 029-2064-6900.

**Iau, 22 Mai**
Stafell Fyw yn cyflwyno Heather Jones, Al Lewis a Sweet Baboo yn Bar Buffalo, Caerdydd am 8.00pm. Tocynnau: £5.

**Iau, 22 Mai**
Mae Pwyllgor Apêl Grangetown, y Bae, Glanyrafon, Adamsdown a Sblot yn cynnal noson 'Beirdd yn y Bar' - 'Y Merched Rhydd v Y Dynion Caeth' yn Dempseys. Noson yn dechrau am 8.00pm. Pris tocynnau yw £5 ymlaen llaw neu £6 ar y drws. Gellir cael tocynnau gan Glenys (07970 411 697) neu drwy Fenter Caerdydd (029 2056 5658)

**Mercher, 4 Mehefin**
Merched y Wawr, Cangen Bro Radur. Noson gymdeithasol i orffen y tymor a chwblhau'r trefniadau ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd. Yn festri Capel y Methodistiaid Saesneg, Windsor Road, Radur, am 7.30pm.

**Gwener, 6 Mehefin**
'Sain, Cerdd a Sgandal!' Noson gerddorol yng nghwmni Joy ac Alwyn Humphreys pan ddadlennir cyfrinachau rhyfeddol am gyfansoddwyr mawr y byd, ynghyd â pherfformiadau o'u gweithiau ar y piano. Er budd Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd (Pwyllgor Apêl Cyncoed, Pen-y-lan, Y Rhath a Llanedern). Pris tocynnau: £6 (oedolion yn unig) Am 8:00pm. Manylion pellach: Rhun Jones (029-2075-5118 neu 07710-172206; rhunjones@aol.com).

**Iau, 12 Mehefin**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd. 'Emynau a Thonau'r Tabernacl.' Cyflwyniad gan Rob Nicholls a Robin Gwyndaf yng Nghapel y Tabernacl, Yr Ais, am 7.30pm. Noson i ddathlu 40 mlwyddiant sefydlu Cymdeithas Emynau Cymru.

**Llun, 16 Mehefin**
Cyfarfod Blynyddol Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Noson yng nghwmni Owen John Thomas, yng nghapel Bethany am 7.30pm.

**Sadwrn, 5 Gorffennaf**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Stondin yng Ngŵyl Rhiwbina.

**Sul, 6 Gorffennaf**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Cymanfa Ganu yng nghwmni Côr Aelwyd Hamdden Caerdydd, yng nghapel Beulah am 8.00pm. Arweinydd: Alun Guy. Organydd: Alun Jones.

**Llun, 7 Gorffennaf**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Gwibdaith.

**28-31 Awst**
Cyfeillion Carnhuanawc. Gwibdaith Haf Carnhuanawc i Gaeredin a Chanolbarth yr Alban. Amcangyfrif o'r gost: £275 i gyplau; £400 sengl. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Nans Couch: 029-2075-3625 neu Cath Jobbins: 029-2062-3275.

*Anfonwch fanylion ar gyfer y Calendr at Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 029-2062-8754; ebost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).*

